# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Chwefror 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)451 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.1 **SL(6)450 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 2 – 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 2 – Adroddiad drafft

3.2 **SL(6)453 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 4 – 6)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 3 – Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(13.40 – 13.45)

4.1 **SL(6)452 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru**

(Tudalennau 7 – 8)

Cod

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 4 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(13.45 – 13.50)

**5.1 SL(6)447 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 9 - 12)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 5 – Adroddiad

LJC(6)-06-24 - Papur 6 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.2 SL(6)448 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 13 - 16)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-06-24 - Papur 8 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 - 13.55)

**6.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

(Tudalen 17)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 9 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 2 Chwefror 2024 [daeth i law ar 5 Chwefror 2024]

**6.2 Gohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol**

(Tudalen 18)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 10 - Gohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, 5 Chwefror 2024

**6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Bioladdol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol ac ati) 2024**

(Tudalennau 19 - 20)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 11 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Chwefror 2024

**6.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd**

(Tudalen 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 12 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Chwefror 2024

**6.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid**

(Tudalennau 22 - 23)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 13 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 7 Chwefror 2024

**6.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol) 2024**

(Tudalennau 24 - 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 14 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 12 Chwefror 2024

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 - 14.00)

**7.1 Gohebiaeth gan y Llywydd: Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE**

(Tudalennau 26 - 29)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 15 – Gohebiaeth gan y Llywydd, 6 Chwefror 2024

**7.2 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE**

(Tudalennau 30 - 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 16 – Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru, 14 Chwefror 2024

**7.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Biliau Diwygio: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

(Tudalennau 38 - 40)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 17 – Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Biliau Diwygio, 6 Chwefror 2024

**7.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyllid camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 41 - 43)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 18 – Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 7 Chwefror 2024

**7.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol**

(Tudalennau 44 - 48)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 19 – Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 9 Chwefror 2024

LJC(6)-06-24 – Papur 20 – Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu,

y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Brif Weinidog Cymru, 9 Chwefror 2024

**7.6 Gohebiaeth gyda Phrif Weinidog Cymru: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 49 - 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 21 - Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru, 12 Chwefror 2024

LJC(6)-06-24 - Papur 22 - Gohebiaeth at Brif Weinidog Cymru, 31 Ionawr 2024

**7.7 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

(Tudalennau 53 - 54)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 23 - Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 6 Chwefror 2024

**7.8 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

(Tudalennau 55 - 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 24 - Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), 12 Chwefror 2024

**7.9 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

(Tudalennau 59 - 60)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 25 - Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid, 1 Chwefror 2024 [daeth i law 12 Chwefror 2024]

**7.10 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

(Tudalennau 61 - 68)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 26 - Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 12 Chwefror 2024

**7.11 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymgynghoriad ar newidiadau i'r broses Gweithio i Wella a diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011**

(Tudalennau 69 - 71)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 27 - Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 12 Chwefror 2024

LJC(6)-06-24 - Papur 28 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 12 Chwefror 2024

**7.12 Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Adroddiad Seneddol Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar gyfer mis Mehefin i fis Rhagfyr 2023**

(Tudalennau 72 - 73)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 29 - Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Chwefror 2024

**7.13 Gohebiaeth gan Sam Rowlands AS: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

(Tudalennau 74 - 76)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 30 - Gohebiaeth gan Sam Rowlands AS, 12 Chwefror 2024

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## 9 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024: Adroddiad drafft

(14.00 - 14.10) (Tudalennau 77 - 80)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 31 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Cytundebau Rhyngwladol: Adroddiad drafft

(14.10 - 14.20) (Tudalennau 81 - 89)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 32 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

(14.20 - 14.35) (Tudalen 90)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 33 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig: Adroddiad drafft

(14.35 - 14.45) (Tudalennau 91 - 100)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 34 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 13 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel): Adroddiad drafft

(14.45 - 14.55) (Tudalennau 101 - 110)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 35 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

(14.55 - 15.10) (Tudalennau 111 - 122)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 36 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 15 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig: Trafod y dystiolaeth ysgrifenedig

(15.10 - 15.20) (Tudalennau 123 - 148)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 37 – Papur [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 38 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 39 – Llythyr gan Bwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin, 17 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 40 – Llythyr at Bwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin, 13 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 41 – Llythyr gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi, 17 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 42 – Llythyr at Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi, 13 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 43 – Llythyr gan Bwyllgor Gweithdrefn a Breintiau Tŷ'r Arglwyddi, 17 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 44 – Llythyr at Bwyllgor Gweithdrefn a Breintiau Tŷ'r Arglwyddi, 13 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 45 – Llythyr gan Gydbwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol, 17 Ionawr 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 46 – Llythyr at Gydbwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol, 13 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]

## 16 Tracio ac adrodd ar gywiriadau Llywodraeth Cymru i wallau mewn offerynnau statudol, y cafwyd adroddiadau yn eu cylch: Trafodaeth

(15.20 - 15.30) (Tudalennau 149 - 153)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 47 - Papur Trafod [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 19 Chwefror 2024

## SL(6)451 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer system y cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, a rhai myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rheoliadau presennol ar gymorth i fyfyrwyr er mwyn addasu symiau'r cymorth i fyfyrwyr israddedig a doethurol ôl-raddedig, yn unol â'r polisi sefydledig. Mae cyfraddau cymorth myfyrwyr yn cael eu haddasu yn unol â'r gwerth a ragwelir ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r gyfradd chwyddiant a ragwelir.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

**Fe'u gwnaed ar:** 24 Ionawr 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 26 Ionawr 2024

**Yn dod i rym ar:** 22 Chwefror 2024

# SL(6)450 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Mae adrannau 26 i 32 o Ddeddf 2014 yn rhoi swyddogaethau disgyblu i'r Cyngor mewn perthynas â phersonau sydd wedi'u cofrestru yn y gofrestr a gynhelir gan y Cyngor ("person cofrestredig").

Mae Rhan 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("y Prif Reoliadau") yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â swyddogaethau disgyblu'r Cyngor. Yn benodol, mae rheoliad 26 o Ran 5 o'r Prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodaeth a gweithdrefn y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a sefydlwyd gan y Cyngor. Yn benodol, mae paragraff (1) o reoliad 26 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benodi aelod sy'n berson cofrestredig i bob un o'r pwyllgorau hynny ("aelod sy'n berson cofrestredig"). Diffinnir aelod sy'n berson cofrestredig ym mharagraff (6)(b) o reoliad 26 o'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio testun Saesneg y Prif Reoliadau er mwyn cywiro gwall gramadegol yn enw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Diwygir enw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn y testun Saesneg o'r "Fitness to Practice Committee" i'r "Fitness to Practise Committee". Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r un gwall gramadegol yn yr unig gyfeiriad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn Saesneg yn nhestun Cymraeg y Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(4) o'r Rheoliadau hyn yn rhoi diffiniad newydd o aelod sy'n berson cofrestredig yn lle'r diffiniad presennol ym mharagraff (6)(b) o reoliad 26 o'r Prif Reoliadau. Effaith yr amnewidiad hwnnw yw na fydd yn ofyniad mwyach i'r aelod sy'n berson cofrestredig fod wedi'i gofrestru yn yr un categori â'r person cofrestredig sy'n destun yr achos disgyblu. Yn hytrach, dim ond mewn o leiaf un o'r categorïau cofrestru a nodir yn Nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 y mae angen i'r aelod sy'n berson cofrestredig fod wedi'i gofrestru.

Mae rheoliad 2(5) o'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall mewn croesgyfeiriad yn rheoliad 45(3)(b) o'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 2(6) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 21 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau er mwyn cynnwys cyfeiriad at adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 (gwahardd cymryd rhan yng ngwaith rheoli ysgolion annibynnol).

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2(4), mae'r diffiniad o "aelod sy'n berson cofrestredig" wedi'i ddiwygio drwy roi paragraffau newydd yn lle paragraffau (i) a (ii) o reoliad 26(6)(b) o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

Fodd bynnag, ym mharagraff (i) newydd, mae'n cyfeirio at "**berson sydd wedi ei gofrestru**..." ond mae'r testun presennol yn cyfeirio at "**berson cofrestredig**...".

Mae hyn yn wahaniaeth sylweddol gan fod "person cofrestredig" yn derm diffiniedig yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

Felly, mae'n ymddangos y dylai'r term "person cofrestredig" fod wedi'i ddefnyddio hefyd ym mharagraff (i) newydd wrth ddiwygio ystyr "aelod sy'n berson cofrestredig".

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Chwefror 2024**

# SL(6)453 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793[1] yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu, mewn perthynas â Chymru, y rhestrau a nodir yn Atodiadau 1 a 2 o Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn rheolaidd o leiaf bob chwe mis, a hynny er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio.

Mae'r adolygiad hwnnw wedi'i gynnal gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau bod nwyddau risg uwch yn parhau i fod yn destun rheolaethau uwch wrth iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr drwy Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs). Mae rheolaethau o'r fath yn cynnwys archwiliadau dogfennol, hunaniaeth a ffisegol gan gynnwys samplu mewn safleoedd rheoli ffiniau dynodedig.

Mae'r Atodiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn cynnwys rhestrau o nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid sydd naill ai'n destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol, yn destun mesurau brys neu'n destun ataliad mynediad i Brydain Fawr. Yn dilyn yr adolygiad, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i'r Atodiadau y gellir eu crynhoi'n fras fel a ganlyn:

- mae 2 nwydd wedi'u tynnu o gwmpas y rheolaethau;
- bydd 4 nwydd yn destun lefel is o reolaethau;
- bydd 3 nwydd yn destun lefel uwch o reolaethau;
- bydd 20 o nwyddau newydd yn destun rheolaethau am y tro cyntaf; ac
- mae codau 'CN' 10 o nwyddau newydd wedi cael eu diwygio.

[1] Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a ddargedwir (EU) 2019/1793 ar y cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n llywodraethu mynediad nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol i'r UE.

Yn ogystal, mae'r offeryn yn mewnosod Atodiad 3a newydd yn Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 ac yn diwygio Erthyglau 4 a 10 o'r rheoliad hwnnw i bennu'r dull samplu a dadansoddi rhagnodedig ar gyfer rheoli presenoldeb *Listeria* mewn bwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru a bydd rheoliadau cyfatebol yn cael eu gwneud yn Lloegr a'r Alban, sy'n golygu, unwaith y bydd deddfwriaeth yn ei lle i sicrhau bod defnyddwyr ym Mhrydain Fawr yn cael eu diogelu rhag bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sydd â'r risg uchaf trwy reolaethau ar ffin Prydain Fawr.

Dim ond trwy Safleoedd Rheoli Ffiniau sydd eisoes wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr y gellir mewnforio nwyddau risg uchel. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs) yng Nghymru felly, ni all y nwyddau hyn, fel y maent ar hyn o bryd, gael eu mewnforio yn uniongyrchol i Gymru o drydydd gwledydd.

Yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, anfonwyd hysbysiad o'r diwygiadau arfaethedig at Sefydliad Masnach y Byd. Derbyniwyd dau sylw. Gofynnodd llywodraeth Twrci am eglurhad ar gnau cyll, a gofynnodd llywodraeth Unol Daleithiau America am fwy o dystiolaeth mewn perthynas â phast cnau daear.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, yn yr Atodiad 2 newydd i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793, yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Sudan (SD), yn yr ail golofn, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau Saesneg *"Groundnut flours and meals"* wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg fel *"Blawd a phrydau bwyd cnadaear"*. Fodd bynnag, ni ddylai'r geiriau hyn fod wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg oherwydd na wnaed Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn Gymraeg (gan nad yw'n un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd). Felly, dylai'r geiriau hynny ymddangos yn Saesneg yn fersiynau'r ddwy iaith o'r cofnod hwn ar gyfer Sudan yn yr Atodiad 2 newydd, fel y nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**14 Chwefror 2024**

# SL(6)452 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn nodi'r gofynion gwahanu yng Nghymru at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("EPA 1990"). Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i gyflwyno, casglu a thrin gwastraff mewn cysylltiad ag eiddo annomestig.

Mae adran 45AB(1) o EPA 1990 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi codau ymarfer at ddiben rhoi canllawiau ymarferol ynghylch sut i fodloni gofynion a osodir gan neu o dan adran 45AA.

Mae Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru ("y Cod") wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer hwn ac mae'n rhoi canllawiau ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yn Rheoliadau 2023.

Gosododd Gweinidogion Cymru fersiwn o'r Cod hwn am y tro cyntaf ar 4 Rhagfyr 2023, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor godi nifer o bwyntiau adrodd o dan Reol Sefydlog 21.7.

Mae'n ymddangos bod y Cod a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 yn disodli'r fersiwn a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2023 i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor.

## Y weithdrefn

Dim gweithdrefn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod y Cod gerbron y Senedd fel sy'n ofynnol gan adran 45AB(4)(b) o EPA 1990.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod hwn.

1. Tybir bod y Cod a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 yn disodli'r Cod o'r un enw a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2023, ond nid yw'n:
    - cael ei esbonio i'r Senedd mewn unrhyw ddogfennaeth a osodwyd ochr yn ochr â'r Cod,
    - cael ei nodi ar wyneb y Cod ei hun,
    - cael ei nodi ar wefan Llywodraeth Cymru y gellir cyrchu'r Cod ohono (er bod y wefan yn nodi "diweddarwyd ddiwethaf" ar 30 Ionawr 2024).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru, felly, gadarnhau bod y Cod a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 yn disodli'r fersiwn a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2023.

At hynny, gofynnir i Lywodraeth Cymru sut y bydd y rheini y mae'n bosibl eu bod eisoes wedi lawrlwytho neu argraffu fersiwn 4 Rhagfyr 2023 o'r Cod – wrth baratoi ar gyfer y gofynion gwahanu newydd yn dod i rym – yn cael gwybod bod y Cod wedi'i ddiweddaru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**9 Chwefror 2024**

# SL(6)447 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("**Gorchymyn 2018**"), sy'n dynodi cyrff mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Diben dynodiad o'r fath yw galluogi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio i gael ei chynnwys mewn cynnig Cyllideb gan y Senedd.

Effaith y Gorchymyn hwn, yn ôl ei Nodyn Esboniadol, yw dynodi 4 corff ychwanegol, newid enwau rhai cyrff dynodedig, a chynnwys y rhifau cwmni ar gyfer 10 corff a ddynodwyd yn flaenorol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Er bod y Nodyn Esboniadol yn nodi mai effaith y Gorchymyn hwn yw dynodi 4 corff ychwanegol, mae'n ymddangos ei fod yn dynodi'r 5 corff newydd a ganlyn:

1. Comisiynydd Plant Cymru;
2. FWC IFW Debt GP Limited;
3. FWC SWIF Debt GP Limited;
4. NE Commercial Property (GP) Limited; a
5. Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru.

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth egluro a yw'r cyrff uchod yn ddynodiadau ychwanegol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru at ddibenion adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn y testun Cymraeg, cyfeirir at y corff "Transport for Wales" fel "Trafnidiaeth Cymru", ac yna nodir yr un rhif cwmni ag a geir yn y testun Saesneg. Mae hyn yn wahanol i'r cyfeiriad yn yr Atodlen honno at "Transport for Wales Rail Ltd", y cyfeirir ato o dan yr enw Saesneg yn unig yn y testun Cymraeg ac yn y testun Saesneg, ac yna o dan yr un rhif cwmni.

Fodd bynnag, nid yw'r manylion a nodir ar gyfer "Transport for Wales" ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau yn cynnwys enw Cymraeg ar gyfer y cwmni. Yn hyn o beth, nid yw'n ymddangos bod yr enw Cymraeg "Trafnidiaeth Cymru" wedi'i gofrestru'n ffurfiol gyda Thŷ'r Cwmnïau pan newidiwyd enw'r cwmni hwn ym mis Ebrill 2016, er mai dyna'r enw masnachu a ddefnyddir ar ei gyfer yn Gymraeg.

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth gadarnhau a ddylai'r corff dynodedig fod wedi'i restru fel "Transport for Wales" yn nhestun Cymraeg yr Atodlen, yn yr un modd â "Transport for Wales Rail Ltd" (sydd hefyd ag enw Saesneg yn unig ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau), o ystyried mai dyma'r dull arferol o gyfeirio at enwau cwmnïau cofrestredig yn nhestun Cymraeg deddfwriaeth.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn yr Atodlen newydd i'r Gorchymyn hwn, mae'r rhestr o gyrff dynodedig yn cynnwys "Prif Arolygydd **Ei Mawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru", ac mae'r troednodyn cysylltiedig yn nodi bod y cyfeiriad at y corff hwn i'w ddehongli fel "Prif Arolygydd **Ei Fawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru", oherwydd effaith adrannau 10 a 23 o Ddeddf Dehongli 1978.

Mewnosododd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023 ("**Gorchymyn 2023**") gyfeiriad at "Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yng Ngorchymyn 2018. Yn ei adroddiad ar Orchymyn 2023, mynegodd y Pwyllgor ei farn, yn dilyn marwolaeth Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines a'i holyniaeth gan y Brenin Charles III, ei bod yn ymddangos y dylid mewnosod "Prif Arolygydd

**Ei Fawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yn ei le. Mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, dywedodd y Llywodraeth fod y cyfeiriad wedi'i "fewnosod yn gywir".

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ffurf "Ei Fawrhydi" wrth gyfeirio at y corff hwn wedi ei defnyddio ers hynny mewn deddfwriaeth Gymreig arall, yn benodol mewn rhestr o awdurdodau contractio yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac mewn cyfeiriadau eraill a geir yn Nodiadau Esboniadol O.S. 2024/27 (Cy. 10) ac O.S. 2023/919 (Cy. 144).

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth esbonio'r ffaith y parheir i gyfeirio at "Ei Mawrhydi" yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024**

Pwynt Craffu Technegol 1:

Ychwanegwyd Comisiynydd Plant Cymru at yr Atodlen o gyrff dynodedig yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 gan erthygl 2 o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021. Fel y cyfryw, effaith Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024 oedd dynodi 4 corff newydd yn unig: FWC IFW Debt GP Limited, FWC SWIF Debt GP Limited, NE Commercial Property (GP) Limited a Chorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru.

Pwynt Craffu Technegol 2:

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r mân anghysondeb y tynnir sylw ato ond mae o'r farn nad yw'n esgor ar unrhyw gamddealltwriaeth.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r mân anghysondeb rhwng y cyfeiriad at "Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yn y Gorchymyn hwn a Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023 a'r cyfeiriad at "Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" mewn deddfwriaeth ddiweddar arall.

Ar ôl ystyried yn ddiweddar y mater technegol o ran a ddylai enwau swyddi neu gyrff a sefydlwyd yn ffurfiol drwy gyfeirio at "Ei Mawrhydi", megis "Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" gael eu newid bellach wrth gyfeirio atynt mewn deddfwriaeth newydd (neu a oes angen newid enw yn ffurfiol), mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai cyfeiriadau at swyddi o'r fath gyfeirio at "Ei Fawrhydi" yn hytrach nag "Ei Mawrhydi" ac y gellir gwneud hyn heb fod angen newid enw yn ffurfiol.

Yn yr achos hwn nid yw'r Llywodraeth yn poeni y gall fod unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn y cyfeirir ato yn y Gorchymyn hwn, ond mae'n nodi'r anghysondeb.

# SL(6)448 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (“Deddf 2023”) yn gweithredu nifer o newidiadau i’r system ardrethu annomestig yng Nghymru a Lloegr.

Daeth Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) i rym ar 27 Hydref 2023 a gwnaethant ddiwygiadau technegol i is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â Chymru sy’n ganlyniadol ar Ddeddf 2023.

Mae’r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn mynd i'r afael â materion a godwyd yn y tri phwynt adrodd technegol yn adroddiad ar Reoliadau 2023 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Dylai diwygiadau penodol a wneir gan Reoliadau 2023 fod wedi’u mynegi fel rhai sy’n cael effaith ar gyfer blynyddoedd ariannol sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny. Yn hytrach, daeth y darpariaethau hyn i rym o'r dyddiad y daeth Rheoliadau 2023 i rym, sef 27 Hydref 2023.

Mae’r Rheoliadau yn datrys y mater hwn drwy:

- ailddatgan y gyfraith fel yr oedd yn gymwys cyn 27 Hydref 2023 gan ddod i rym ar unwaith (Rhan 2), ac
- ail-wneud y diwygiadau yn Rheoliadau 2023 i ddod i rym o 1 Ebrill 2024 (Rhan 3).

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn unol â rheoliad 1(3) a (4), daw Rhannau 1 a 2 o'r Rheoliadau i rym ar 19 Ionawr 2024 a daw Rhan 3 i rym ar 1 Ebrill 2024.

Mae'r wybodaeth dyddiad mewn ffont italig a nodir o dan deitl y Rheoliadau ond yn cyfeirio at 19 Ionawr 2024 fel y dyddiad dod i rym. Gofynnir i Lywodraeth Cymru pam nad yw hyn yn dilyn y fformat arferol ar gyfer offerynnau sydd â mwy nag un dyddiad dod i rym, naill ai trwy ddarparu bod y Rheoliadau yn dod i rym "yn unol â rheoliad 1(3) a (4)" neu drwy nodi'r ddau ddyddiad dod i rym ar wahân (gweler Ymarfer Offeryn Statudol ym mharagraff 3.10.4).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir bod y gyfraith, yng ngoleuni'r ffaith bod y diwygiadau yn Rheoliadau 2023 wedi'u cychwyn yn gynamserol, yn anghywir rhwng 27 Hydref 2023 a 19 Ionawr 2024 (sef y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym).

Mae paragraff 18 o'r Memorandwm Esboniadol yn darparu'r canlynol:

> *Caiff copïau o Reoliadau 2024 eu hanfon at holl dderbynwyr hysbys Rheoliadau 2023 yn rhad ac am ddim er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr y mae angen copi arnynt yn cael eu rhoi o dan anfantais drwy orfod talu amdano. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw effeithiau andwyol sy'n deillio o'r hepgoriadau yn Rheoliadau 2023. Byddai unrhyw effeithiau o'r fath wedi cael eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid, yn enwedig awdurdodau bilio lleol.*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 17 Ionawr 2024.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch yr angen i ddod â'r Rheoliadau i rym cyn gynted â phosibl er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar Reoliadau 2023, ac i sicrhau bod effaith polisi arfaethedig yr is-ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei chadw.

Cyfeirir at y mater brys hwn hefyd ym mharagraff 19 o'r Memorandwm Esboniadol fel rheswm ynghylch pam na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

***Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024***

Pwynt Craffu Technegol 1: Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cywiro'r croesgyfeiriad mewn ffont italig gan mai darpariaeth anweithredol ydyw. Mae'r ddarpariaeth dod i rym yn rheoliad 1 o'r offeryn yn gywir felly mae'r offeryn yn effeithiol yn gyfreithiol.

Serch hynny, ar y cyd â Chofrestrydd yr Offerynnau Statudol rydym wedi archwilio'r posibilrwydd o gywiro'r croesgyfeiriad drwy gyfrwng slip cywiro, er mwyn sicrhau bod y gyfraith mor eglur â phosibl. Mae Cofrestrydd yr Offerynnau Statudol wedi cytuno â'r ymagwedd hon a bydd yr offeryn yn cael ei gywiro.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

02 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Ysgrifennais atoch ddydd Gwener 26 Ionawr yn eich hysbysu bod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo ddydd Llun 5 Chwefror rhwng 10 a 11.15 y bore. Yn anffodus, ddydd Llun 29 Ionawr cawsom wybod gan ein cyd-swyddogion yn Llywodraeth y DU y bydd y cyfarfod nawr yn cael ei ohirio yn dilyn cais gan Weinidogion y DU i gael amser ychwanegol i ystyried yr agenda arfaethedig.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am i'r cyfarfod gael ei aildrefnu cyn gynted â phosibl, ac am i'r sgyrsiau ar lefel swyddogol barhau yn y cyfamser.

Yn anffodus, nid oes dyddiadau wedi'u cynnig, ond byddaf wrth gwrs yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor maes o law, unwaith y cytunir ar ddyddiad newydd.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/DB/00072/24

Huw Irranca-Davies AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.cymru

5 Chwefror 2024

Annywl Huw,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant, a gynhelir ar 8 Chwefror 2024 ac a fydd yn cael ei gynnal yn rhithiol.

Dyma gyfarfod cyntaf y Grŵp a bydd yn cael ei gadeirio gan Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU. Bydd y cyfarfod yn debygol o ymdrin â gweledigaeth Sector y Diwydiannau Creadigol a materion cyfredol yn y sector creadigol a diwylliannol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

5 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Cynhyrchion Bioladdol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol etc.) 2024 erbyn 5 Mawrth.

Derbyniais lythyr gan Is-iarll Younger o Leckie, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Waith a Phensiynau yn gofyn am ganiatâd i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Erthygl 85 ac Erthygl 83A(2) o Reoliad Cynhyrchion Bioladdol Prydain Fawr (EU) Rhif 528/2012 (GB BPR) (addasiad i gynnydd gwyddonol a thechnegol).

Rhaid i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch awdurdodi cynhyrchion bioladdol sy'n gweithredu fel yr awdurdod cymwys ar ran Gweinidogion Cymru.
Mae'r HSE yn cynnig cyflwyno diweddariadau technegol i Atodiadau II a III o BPR GB a fydd yn galluogi:

- Gostyngiad mewn profion ar anifeiliaid
- Alinio â'r canllawiau cyfredol, a phrofion wedi'u dilysu y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad
- a Datblygiad Economaidd (OECD)
- HSE i sicrhau fod cynnydd gwyddonol yn cael ei fonitro a bod datblygiadau'n cael eu hadlewyrchu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni fydd y gostyngiad arfaethedig mewn profion ar anifeiliaid yn lleihau ansawdd y profion neu ddiogelwch cynhyrchion, gan fod profion dibynadwy sydd heb gysylltiad ag anifeiliaid bellach ar gael i ddarparu gwybodaeth oedd yn y gorffennol ond ar gael drwy brofi gan ddefnyddio anifeiliaid byw. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a chaiff ei osod gerbron y Senedd ar 5ed Mawrth 2024. Y dyddiad cychwyn fydd 06 Ebrill 2024.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru am fod y Rheoliadau yn dechnegol eu naws ac nad ydynt yn arwain at unrhyw newid o ran polisi. Felly nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes darpariaeth sy'n caniatáu imi ddeddfu ar wahân i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn aelodau craidd o'r Bwrdd Cyflawni Bioladdwyr (BDB) sy'n rhan o'r strwythurau llywodraethu ar gyfer y Fframwaith Cyffredin Cemegau a Phalladdwyr. Mae'r gwelliannau deddfwriaethol arfaethedig wedi eu trafod a'u cymeradwyo gan y BDB.

Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau i'r Rhaglen Lywodraethu. Mae awdurdodi cynhyrchion bioladdol yn cefnogi llawer o nodau llesiant "Cymru iachach" a 'Cymru gydnerth' ynghyd ag effeithiau cysylltiedig ar y nod o "Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang" lle mae cynhyrchion sy'n niweidiol i fywyd dynol neu annynol yn cael eu rheoleiddio'n iawn. Rwyf hefyd wedi fy nghalonogi o weld y defnydd arfaethedig o dechnoleg ar gyfer profi cynhyrchion bioladdol sy'n lleihau'r angen am brofion anifeiliaid.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA).

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/0042/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

6 Chwefror 2024

Annwyl Huw, Llŷr,

Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a oedd i fod i gael ei gynnal ar 6 Chwefror 2024, wedi'i ohirio drwy gytundeb yn dilyn y newyddion da am adfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Bydd y gohiriad hwn yn caniatáu ymgysylltiad llawn ac ystyrlon gan y pedair llywodraeth. Disgwylir i'r Grŵp Rhyngweinidogol gael ei gynnal ar 21 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Ymhellach at fy llythyr diweddar yn eich hysbysu o gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 25 Ionawr yng Nghaeredin, hoffwn adrodd yn fyr ar y trafodaethau. Cyhoeddwyd hysbysiad hefyd yn dilyn y cyfarfod: [Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 25 Ionawr 2024 - (www.gov.uk)]

Yn bresennol gyda mi yn y cyfarfod, roedd y Gwir Anrh. Laura Trott MBE AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Ymunodd swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd o bell, i arsylwi.

Yn ystod ein trafodaethau ynghylch y cyd-destun economaidd a chyllidol presennol, codais y mater o'r pwysau sylweddol ar wariant cyhoeddus, yn enwedig y rhai yr adroddir amdanynt gan y GIG a chan yr awdurdodau lleol.

Fel yn achos cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, pwysleisiais unwaith eto yr achos dros ddarparu rhagor o hyblygrwydd yn y gyllideb, gan gynnwys proses y cytunwyd arni ar gyfer cyfnewid cyfalaf yn refeniw er mwyn cynnig rhagor o sicrwydd yn y dyfodol. Tynnais sylw hefyd at rai o'r argymhellion ariannol yn adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a oedd yn dadlau bod yr hyblygrwydd yr ydym yn ei geisio gan Drysorlys EF yn rhesymol. Trafodwyd y pecyn cymorth ariannol yr adroddwyd amdano ar gyfer Gogledd Iwerddon, a phwysleisiais y pwynt fod angen cymorth ym mhob ardal o'r DU i ymateb i'r holl bwysau ar wariant cyhoeddus yr ydym yn eu hwynebu.

Rhoddodd Dirprwy Brif Weinidog yr Alban a minnau ddiweddariad ar gyllidebau y llywodraethau datganoledig. Tynnais sylw at yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu y flwyddyn hon o ran ansicrwydd ynghylch ein setliad cyllidebol, a'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi'u gwneud er mwyn ail-flaenoriaethu cyllid. Pwysleisiais yr angen i nodi unrhyw newidiadau i'n cyllideb yn gynnar er mwyn cefnogi gwaith cynllunio, gan gynnwys darparu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eglurder ar fyrder ynghylch a fydd lefel sylfaenol yn cael ei gosod ar gyfer cyllid Agenda ar gyfer Newid y GIG ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn ystod trafodaeth ar Gyllideb y Gwanwyn Llywodraeth y DU, codais yr heriau sy'n dod yn sgil amseru Cyllideb y Gwanwyn, gan ystyried ei bod yn digwydd y diwrnod ar ôl i'r Senedd bleidleisio ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Cyflwynais yr achos dros ddefnyddio unrhyw adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'r Canghellor i ddarparu'r buddsoddiad hanfodol sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyflogau a phensiynau'r sector cyhoeddus, yn ogystal â chymorth pellach ar gyfer costau byw a buddsoddiad ychwanegol i wella cynhyrchiant a thwf.

Daeth y cyfarfod i ben drwy gyfnewid gwybodaeth a syniadau ar fesurau i drechu tlodi. Rhoddais drosolwg o'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiais hefyd y galwadau gan Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Trussell i Lywodraeth y DU ddiwygio'n sylfaenol sut y pennir cyfraddau budd-daliadau ac i weithredu Gwarant Hanfodion ar gyfer sicrhau bod pobl yn gallu talu eu costau sylfaenol.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y gwanwyn.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol) 2024.

Derbyniais lythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, y Môr a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon ar 16 Hydref 2023, yn gofyn am ein cydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Mae Rheoliadau 2024 yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno gan y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023, a chânt eu gwneud o dan Adran 8C(1) a (2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, daeth pob symudiad anfasnachol o anifeiliaid anwes o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon o dan ofynion llawn yr UE ar gyfer trydydd gwledydd ar 1 Ionawr 2021, yn dilyn diwedd y Cyfnod Pontio. Sefydlir y gofynion hyn gan Reoliad (UE) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 12 Mehefin 2013 ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol ("Cynllun Anifeiliaid Anwes yr UE").

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae Fframwaith Windsor yn newid Protocol Gogledd Iwerddon ac yn rhoi fframwaith newydd, cynaliadwy a gwydn ar waith ar gyfer symud anifeiliaid anwes am resymau anfasnachol. Mae Rheoliadau 2024 yn nodi'r telerau ar gyfer gallu symud anifeiliaid anwes trwy Gynllun Teithio Anifeiliaid Anwes Gogledd Iwerddon. Maent yn nodi hefyd y bydd angen i berchennog yr anifail anwes wneud cais am ddogfen deithio anifeiliaid anwes sy'n ddilys am oes yr anifail anwes. Wrth wneud cais am y ddogfen, bydd angen i berchnogion anifeiliaid anwes ddarparu gwybodaeth benodol i'r awdurdod cymwys perthnasol, a bydd hefyd gofyn i wneud yn siŵr bod gan bob ci, cath a ffured (gan gynnwys y rheini yng Ngogledd Iwerddon) microsglodyn. Bydd gofyn i berchennog anifail anwes (neu'r sawl sy'n teithio gydag anifail anwes) wneud datganiad na fydd yr anifail anwes yn cael ei symud i'r UE wedi hynny.

Ni fydd angen i berchennog o Ogledd Iwerddon wneud mwy na microsglodynnu ei anifail anwes er mwyn cael teithio i ac o Brydain Fawr ac ni fydd angen dogfen deithio anifeiliaid anwes nac unrhyw broses arall.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

6 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

**Adroddiad yr Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE**

Diolch am eich llythyr ynghylch Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar ei ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i faterion pwysig ynglŷn â rôl y Senedd a'r gwledydd datganoledig yn y strwythurau sydd wedi dod i'r amlwg i reoli cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar ôl ymadawiad y DU â'r UE. Mae Aelodau o'r Senedd o bob plaid wedi dangos eu diddordeb mewn ymgysylltu â'r strwythurau newydd hyn ac mae Comisiwn y Senedd wedi cefnogi'r gwaith ymgysylltu rhyngwladol ac ymgysylltu â'r UE hwn drwy ein Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer y Chweched Senedd. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn eich adroddiad yn dangos gwerth y gwaith y mae'r Aelodau wedi'i wneud yn y maes hwn.

Ceir manylion am ymateb y Comisiwn i argymhelliad 18 ac argymhelliad 20 yn Atodiad 1.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor. Os oes rhagor o wybodaeth yr hoffai eich Pwyllgor ei chael, yn awr neu pan fydd modd i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i lywio ymchwiliad sy'n cael ei gynnal, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Cofion gorau,

Elin Jones

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Atodiad 1

*Argymhelliad 18. Dylai Comisiwn y Senedd a'r Bwrdd Taliadau barhau i roi cymorth priodol a digonol i Aelodau o'r Senedd a phwyllgorau'r Senedd i'w galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau'r UE a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y caiff materion allweddol sydd o bwys i Gymru eu codi'n uniongyrchol ym Mrwsel.*

## Ymgysylltu Ewropeaidd a gefnogir gan Gomisiwn y Senedd

Mae cefnogaeth i waith a gweithgarwch ymgysylltu'r Senedd â'r UE yn dod o fewn Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer y Chweched Senedd y Comisiwn. Diben y Fframwaith hwn yw darparu atebolrwydd, eglurder a chyfeiriad i'r gweithgaredd seneddol rhyngwladol a ariennir gan Gomisiwn y Senedd.

Mae'r Fframwaith yn cydnabod arwyddocâd ymgysylltu'n uniongyrchol ar y llwyfan rhyngwladol ar gyfer y Senedd. Mae'n adlewyrchu'r farn a fynegwyd gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd wrth edrych ymlaen at anghenion y Chweched Senedd:

"*Mae bod yn sefydliad rhyngwladol uchel ei barch yn rhan bwysig o fod yn ddeddfwrfa genedlaethol, gan gyfrannu at gyfnewid gwybodaeth ac elwa o hyn, dod o hyd i gynghreiriaid a chynyddu'r dylanwad y gall y Senedd ei gael drwy waith craffu a chynrychiolaeth*."

Ceisia'r Fframwaith gynorthwyo i nodi cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar sail rhyng-sefydliadol er budd pobl Cymru. Mae'n cydnabod gwerth a phwysigrwydd meithrin enw da'r Senedd fel sefydliad, ac ar y llwyfan rhyngwladol, drwy ymgysylltu a chydweithio, boed hynny o dan arweiniad Aelod neu bwyllgor.

I'r perwyl hwn, mae'r Comisiwn wedi parhau i gadw presenoldeb yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel. Defnyddir ein presenoldeb i hwyluso ymgysylltiad yr Aelodau â sefydliadau'r UE ac i hyrwyddo gwaith pwysig a safonol iawn pwyllgorau ac Aelodau o'r Senedd ar feysydd polisi perthnasol. Mae hefyd yn hwyluso gwaith casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gan bwyllgorau'r Senedd fel rhan o'u gwaith.

Mae'r Comisiwn yn parhau i gefnogi gwaith pwyllgorau ac Aelodau o'r Senedd yng Nghynulliad Partneriaeth Seneddol y DU-UE ac mae wedi cefnogi eu galwadau i Aelodau o'r Senedd chwarae rhan mor llawn â phosibl yn y corff.

Rydym yn parhau i ddarparu staff y Comisiwn a chymorth ariannol i Aelodau o'r Senedd ymgysylltu â Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau-DU, gan gynnwys bod y sefydliad cyntaf yn y DU i gynnal cyfarfod o'r Grŵp ym mis Mawrth 2022.

Parheir i ddarparu adnoddau i gefnogi'r Aelodau a phwyllgorau yn y gweithgareddau hyn yn ystod y Chweched Senedd a chan gydnabod mai'r galw fydd yn arwain yn hyn o beth, caiff ei adolygu'n barhaus. Bwriad y Comisiwn yn y flwyddyn ariannol nesaf (2024-25) yw diogelu'r lefelau cyllido a ddarparwyd i gefnogi ymgysylltiad yr Aelodau yn rhyngwladol ac ar lefel yr UE.

Y prif ffynonellau cyllid a ddarperir gan y Comisiwn i gefnogi ymgysylltiad â sefydliadau'r UE yw

cyllideb teithio a chynhaliaeth y pwyllgorau, a chyllid ac adnoddau a ddefnyddir i gefnogi presenoldeb parhaus y Senedd yn Nhŷ Cymru, Brwsel. Mae hwn wedi ariannu dau ymweliad o bwys â Brwsel ym mis Medi (gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad) a mis Tachwedd (gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig) a darparwyd cymorth sylweddol gan swyddogion.

Er bod penderfyniad y Comisiwn i ariannu taliad costau byw i staff o arbedion yn ystod y flwyddyn wedi effeithio ar y gyllideb pwyllgorau, yn yr un modd â chyllidebau eraill y Comisiwn, gwnaed ymdrechion i sicrhau bod yr holl weithgarwch a gynlluniwyd gan y pwyllgorau yn cael ei ariannu.

Ers hynny cafwyd dwy drafodaeth yn Fforwm y Cadeiryddion ar ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch pwyllgorau o'r math hwn, a thrwy'r rhain mynegwyd safbwyntiau Cadeiryddion y pwyllgorau yn glir.  Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried wrth ddatblygu cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2024-25.

## Darpariaeth y Bwrdd Taliadau Annibynnol o ran teithio.

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gorff sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau a'r adnoddau cywir ar gael i Aelodau o'r Senedd fel y gallant gyflawni eu rôl. Mae hyn yn cynnwys gwneud darpariaeth ar gyfer teithio, a nodir ym Mhenderfyniad y Bwrdd ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Comisiwn y Senedd sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad.

Mae'r Penderfyniad yn gwneud darpariaethau ar wahân ar gyfer teithio rhyngwladol gan Aelodau unigol pan fo'r ymweliad arfaethedig yn bodloni'r meini prawf a bennwyd gan y Bwrdd Taliadau.

Cyn teithio, rhaid i'r Aelodau anfon achos busnes at y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau i'w gymeradwyo, gan egluro'r rhesymeg dros yr ymweliad, nifer yr arosiadau dros nos, a sut y bydd yr ymweliad yn bodloni'r gofyniad iddo gael ei gynnal o reidrwydd er mwyn galluogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau.

Er bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun, rhagwelir y byddai teithio i Frwsel neu i rywle arall sy'n galluogi'r Aelodau i ymgysylltu â sefydliadau a rhanddeiliaid yr UE er mwyn sicrhau bod materion allweddol o bwys i Gymru yn cael eu codi, o fewn cwmpas y darpariaethau teithio rhyngwladol a bennwyd gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y darpariaethau ar gyfer teithio i'r UE a bennwyd gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd wedi newid ers i'r DU ymadael â'r UE.  Er y darparwyd ar gyfer teithio i'r UE yn benodol, ac ar wahân, o dan Benderfyniadau blaenorol, mae'r Fframwaith presennol a bennwyd gan y Bwrdd Taliadau yn galluogi'r Aelodau i deithio i'r UE, heb y 'capiau' rhifiadol.

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae 13 o ymweliadau rhyngwladol gan Aelodau wedi'u hariannu o dan y Penderfyniad, ac roedd 9 ohonynt ag Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys un â Brwsel.

*Argymhelliad 20. Dylai Comisiwn y Senedd hwyluso ymgysylltiad rheolaidd â sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru ar faterion y DU-UE. Er enghraifft, mewn perthynas â chyfarfodydd rheolaidd sy'n cynnwys Aelodau o'r Senedd ar rwydweithiau allanol perthnasol, cyrff y DU-UE, Cadeiryddion Pwyllgorau perthnasol a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n ymwneud â gwaith ar y materion hyn*.

Mae Comisiwn y Senedd, drwy ei gefnogaeth i'r Aelodau a benodwyd i gyrff allweddol rhwng y DU

a'r UE, wedi ceisio hwyluso ymgysylltiad yr Aelodau â sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru ar y pynciau hyn.

Er enghraifft, fel y gwyddoch, cefnogodd swyddogion Comisiwn y Senedd yr Aelodau a oedd yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU-UE (PPA) i weithio gyda Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit i nodi meysydd allweddol o ddiddordeb i sefydliadau yng Nghymru cyn cyfarfod diwethaf y Cynulliad Partneriaeth. Mae Comisiwn y Senedd hefyd wedi hwyluso ymgysylltiad pwyllgorau ac Aelodau o'r Senedd â sefydliad cymdeithas sifil yr Undeb Ewropeaidd, sef Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, gan gynnal dau ymweliad gan y Pwyllgor hwnnw â'r Senedd yn ystod y 18 mis diwethaf.

Mae gwaith eich Pwyllgor chi a phwyllgorau perthnasol eraill y Senedd hefyd yn ddiamau yn chwarae rhan allweddol o ran darparu cyfleoedd i sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru godi materion sydd o bwys iddynt ar y pwnc hwn.

Mae swyddogion Comisiwn y Senedd yn fodlon edrych yn fanylach ar yr argymhelliad hwn gyda'r Pwyllgor, Cadeiryddion Pwyllgorau perthnasol eraill ac Aelodau o'r Senedd sydd â rolau perthnasol o ran deall pa ddulliau hwyluso ymgysylltu ychwanegol a allai fod yn bosibl ac yn fuddiol. Byddai angen ystyried goblygiadau unrhyw weithgareddau ychwanegol o ran adnoddau fel rhan o'r gwaith cynllunio busnes a chynllunio cyllideb y Comisiwn, ac yng ngoleuni ymrwymiadau eraill yn y Fframwaith Rhyngwladol a'r cyllidebau ymgysylltu Ewropeaidd.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: 12-12-2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@Senedd.Wales

14 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr am Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar ei Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE.

Rwy'n croesawu ymateb y Pwyllgor yn gyffredinol a gallaf gefnogi ysbryd llawer o'i gasgliadau yn fras. Rwyf wedi nodi ymateb i bob un o'r Argymhellion yn yr Atodiad atodedig.

Mae'r adroddiad hwn yn amserol wrth i ni ddechrau edrych ymlaen at etholiadau yn yr UE a'r DU ac o ystyried y penodiadau sefydliadol newydd a gaiff eu gwneud yn yr UE dros y 12 mis nesaf. O ganlyniad i hyn, ac fel y nodais yn fy llythyr i'r Pwyllgor dyddiedig 18 Hydref 2023, mae'n anodd rhagweld y bydd newidiadau sylweddol ym mherthynas y DU a'r UE yn ystod 2024. Er y bydd cyfleoedd i adeiladu ar y gwelliannau a wnaed o ran cysylltiadau rhwng y DU a'r UE dros y flwyddyn ddiwethaf, mae angen i ni fod yn realistig o ran y newidiadau y gellir eu gwneud yn y tymor byr, o ystyried statws y DU fel trydedd wlad i'r UE a ffocws anochel yr UE ar flaenoriaethau eraill.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE (Tachwedd 2023)**

*Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd trwy ddatganiad ysgrifenedig am unrhyw benderfyniadau a wneir o fewn y strwythurau llywodraethu mewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Dylai nodi ei barn ar y penderfyniadau hyn a thrafodaethau a gynhaliwyd â'r DU a/neu lywodraethau datganoledig eraill cyn y gwnaed y penderfyniadau hyn.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniadau eu hunain bob amser yn cael eu cyfleu mewn ffordd gyflym a chlir i'r cyhoedd. Yn ogystal, nid Llywodraeth Gymru fel arfer sy'n gyfrifol am yr amseru felly ni fydd o reidrwydd bob amser yn ymarferol bosibl cynnig barn cyn y caiff y penderfyniadau eu gwneud; ac mae'n bosibl weithiau na fyddai'n fuddiol gwneud sylwadau cyhoeddus cyn penderfyniad. Byddwn yn darparu datganiadau ysgrifenedig am y penderfyniadau a wneir lle bo hynny'n bosibl. Byddwn yn ystyried pa wybodaeth arall y gallai fod yn ddefnyddiol ei darparu cyn gwneud unrhyw benderfyniadau o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol:**

*Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n monitro datblygiadau polisi a deddfwriaethol yr UE ar draws y llywodraeth i asesu eu heffaith bosibl ar Gymru a sut y mae'n rhannu'r wybodaeth hon â rhanddeiliaid. Dylai hefyd egluro pwy sydd â'r cyfrifoldeb gweinidogol yn Llywodraeth Cymru am gydgysylltu mewnbwn i strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a materion rhwng y DU a'r UE yn ehangach.*

**Derbyn.** Gan nad yw'r DU yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE mwyach, nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro datblygiadau polisi a datblygiadau deddfwriaethol yr UE fel mater o drefn fel yr arferai wneud, o ystyried bod yr effaith uniongyrchol ar Gymru yn llawer llai arwyddocaol. Serch hynny, ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, mae timau polisi unigol a'n Swyddfa Brwsel yn monitro datblygiadau allweddol ac yn nodi lle y gallent gael effaith ar gyfrifoldebau a dewisiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi a deddfwriaeth. Mae'r gwaith monitro cyffyrddiad ysgafn hwn yn canolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Ymadael neu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu; yn enwedig lle y gall fod effaith o ran sicrhau Tegwch yn y Farchnad, fel y dynodir yn Erthygl 355 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Fel y Prif Weinidog, rwy'n gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol ac am Gymru yn Ewrop. Gweinidog yr Economi sy'n gyfrifol am bolisi masnach ryngwladol, gan gynnwys cydgysylltu materion sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a'r gweinidog hwnnw sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru ar y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

**Goblygiadau ariannol:** Dd/G

*Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddadlau dros roi rôl lawn iddi yn y Cyngor Partneriaeth a statws sylwedydd yng nghyfarfodydd perthnasol y Cyd-bwyllgor a phwyllgorau eraill y Cytundeb Ymadael, fel y bo'n berthnasol.*

**Derbyn.** Cred Llywodraeth Cymru y dylai gael y cyfle i fod yn rhan weithgar o ddirprwyaeth y DU ym mhob cyfarfod rhwng y DU a'r UE a gynhelir o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ar bob lefel, gan gynnwys y Cyngor Partneriaeth; ac y dylai Llywodraeth y DU ymgysylltu'n llawn â'r Llywodraethau Datganoledig wrth baratoi safbwyntiau i'w cyflwyno yn ystod cyfarfodydd o'r fath. Dyma, i raddau helaeth, sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Cred Llywodraeth Cymru hefyd y dylai gael y cyfle i fod yn rhan o ddirprwyaeth y DU yn ystod unrhyw gyfarfodydd perthnasol a gynhelir o dan y Cytundeb Ymadael, ac i gymryd rhan wrth baratoi safbwyntiau'r DU ar gyfer cyfarfodydd o'r fath. Nid dyma sy'n digwydd ar hyn o bryd. Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yw'r unig Lywodraeth ddatganoledig sy'n cael gwahoddiad o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro ei safbwynt yn hyn o beth i Lywodraeth y DU.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd cyllid ar gyfer cyfranogi ac ymgysylltu yn dal i ddod o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 4. Dylai llywodraethau'r DU gynnal adolygiad ar fyrder o'r egwyddorion a'r telerau y mae'r llywodraethau datganoledig yn ymwneud â nhw mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Dylai hyn arwain at fabwysiadu cylch gwaith newydd ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.*

*Argymhelliad 5. Dylai'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE fabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar rôl llywodraethau datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir, ac ymgysylltiad cyson, gan wahanol adrannau'r DU a'r llywodraeth ddatganoledig.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Er fy mod yn cydymdeimlo â'r awgrymiadau hyn, nid wyf yn disgwyl gweld unrhyw gynnydd yn hyn o beth gan Lywodraeth bresennol y DU. Gobeithio y bydd Llywodraeth nesaf y DU yn gweithredu mewn ffordd fwy ymgysylltiol a chydsyniol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd cymorth i'r Grŵp Rhyngweinidogol yn dal i ddod o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 6. Dylai'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ddarparu ar gyfer ymgysylltu mwy ystyrlon drwy sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal digon ymlaen llaw cyn cyfarfodydd Cydbwyllgor y Cytundeb Ymadael a Chyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i ganiatáu ar gyfer mewnbwn datganoledig llawn. Dylai hyn gynnwys rhoi digon o gyfle i lywodraethau datganoledig awgrymu eitemau ar yr agenda i'w cynnwys mewn cyfarfodydd llywodraethu rhwng y DU a'r UE.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Codwyd y materion hyn â Llywodraeth y DU. Er nad wyf yn disgwyl gweld newidiadau sylweddol yn cael eu rhoi ar waith cyn Etholiad Cyffredinol nesaf y DU, rwyf wedi sylwi ar welliant graddol dros gyfnod o ryw flwyddyn yn y ffordd y caiff y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ei weithredu. Er gwaethaf hyn, cafodd rhai cyfarfodydd eu cynnal â chyfnod rhybudd byr iawn mewn ymateb i gyfarfodydd lefel uchel brys rhwng y DU a'r UE.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd cymorth i'r Grŵp Rhyngweinidogol yn dal i ddod o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 7. Mae ein gwaith ar Fframweithiau Cyffredin a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn cefnogi'r farn a amlinellwyd uchod, sef bod strwythurau llywodraethu yn y DU ar ôl Brexit ar faterion y DU a'r UE yn gymhleth. Dylai llywodraethau'r DU drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol nodi safbwynt y cytunwyd arno ar gyfer y modd y mae'r cyrff newydd hyn yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda'i gilydd, sy'n cynnwys rolau'r gwahanol lywodraethau a sefydliadau oddi mewn iddynt.*

**Derbyn.** Rydym yn croesawu'r awgrym hwn ac yn cytuno â'r rhesymeg drosto. Byddwn yn anelu at weithio gyda llywodraethau eraill yn hyn o beth ac yn pwyso ar Lywodraeth y DU i wneud hynny.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd cymorth i'r Grŵp Rhyngweinidogol a'r rhaglenni fframweithiau cyffredin yn dal i ddod o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru godi'r materion yr ydym yn eu nodi yn argymhellion 4, 5, 6 a 7 gyda llywodraethau eraill y DU yn y fforymau priodol ac adrodd ar y canlyniad o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.*

**Derbyn.** Bydd Llywodraeth Cymru yn codi'r materion hyn ac yn hysbysu'r Senedd yn rheolaidd am unrhyw gynnydd. Fodd bynnag, efallai na fydd yn realistig disgwyl llawer o gynnydd mewn perthynas â'r materion hyn cyn bod newid i Lywodraeth y DU.

**Goblygiadau ariannol:** Dd/G

*Argymhelliad 9. Dylai blaenoriaethau strategol a gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol y berthynas rhwng Cymru a'r UE gael eu mynegi'n glir gan Lywodraeth Cymru naill ai mewn strategaeth benodol neu mewn Strategaeth Ryngwladol ar ei newydd wedd.*

**Derbyn yn rhannol.** Mae'r berthynas rhwng Cymru a'r UE ymhlith ein perthnasoedd pwysicaf, mwyaf sefydledig. Fel y crybwyllais wrth y Pwyllgor hwn ym mis Medi 2023, gan bwysleisio hynny mewn llythyr i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn fy ymateb i'w adroddiad ar gysylltiadau rhyngwladol, nid wyf o'r farn bod angen strategaeth UE ar wahân ar hyn o bryd.

Mae ein Strategaeth Ryngwladol yn nodi ein perthynas ag Ewrop ac mae llawer o'r perthnasoedd a nodwyd gennym fel perthnasoedd blaenoriaethol yn ymwneud â gwledydd neu ranbarthau Ewropeaidd. Mae ein penderfyniad i gadw ein swyddfa ym Mrwsel, ac i greu cynrychiolydd penodedig ar gyfer yr UE, yn cadarnhau ymrwymiad Cymru i gysylltiadau ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Caiff costau strategaeth ryngwladol ar ei newydd wedd eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau ymgynghori â’r sefydliad cymdeithas sifil a rhanddeiliaid yng Nghymru ar y blaenoriaethau hyn a’i gweledigaeth ar unwaith.*

*Argymhelliad 11. Dylai cyfranogiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru yn y rhwydweithiau Ewropeaidd a’i chefnogaeth i gymdeithas sifil Cymru ymgysylltu â hwy barhau a dylid adlewyrchu eu pwysigrwydd wrth adnewyddu ei Strategaeth Ryngwladol.*

*Argymhelliad 12. Wrth adnewyddu’r Strategaeth Ryngwladol a datblygu blaenoriaethau strategol ar gyfer ei pherthynas â’r UE yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chymdeithas sifil i ystyried cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ymhellach â rhwydweithiau Ewropeaidd a all helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol i Gymru.*

**Derbyn yn rhannol.** Mae ein swyddfa ym Mrwsel yn chwarae rhan arweiniol wrth feithrin perthynas Llywodraeth Cymru â Sefydliadau Ewropeaidd. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth ymgymryd â'n gweithgarwch gyda rhwydweithiau Ewropeaidd fel Menter Vanguard, CPMR a'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD). Yn ogystal, mae swyddfa Brwsel yn gweithio'n agos gyda'r Senedd a CGGC i rannu gwybodaeth, i nodi cyfleoedd i ymgysylltu â chymdeithas sifil a rhanddeiliaid eraill ac i dynnu sylw at y cyfleoedd hynny. Bydd y gwaith hwn yn parhau a bydd yn helpu i lywio dyfodol ein perthynas â'r UE a'n perthnasoedd ledled Ewrop yn ehangach. Mae'r rhwydwaith o swyddfeydd tramor Ewropeaidd ehangach yn Iwerddon, yr Almaen a Ffrainc hefyd yn helpu i roi ein Strategaeth Ryngwladol ar waith, gan feithrin perthnasoedd â'r gwledydd unigol hynny. Yn fwyaf diweddar, llofnodwyd Datganiad Cydweithredu Cyffredin â thalaith Baden-Württemberg yn yr Almaen yn nodi ein hamcanion cyffredin ar gyfer ymgysylltu â rhwydweithiau Ewropeaidd yn ogystal â'n dull o gydweithio er mwyn helpu i gyflawni mewn meysydd fel addysg, gwyddoniaeth, yr economi, diwylliant a'r amgylchedd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 13. Mae penodi Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru i Ewrop wedi bod yn rhan bwysig o’r berthynas â sefydliadau’r UE ar ôl Brexit. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio parhau â’r rôl hon ar ôl mis Ionawr 2024. Dylai gwaith deiliad y swydd yn y dyfodol fod yn gyson â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ei pherthynas â’r UE a dylid darparu diweddariadau rheolaidd i’r Senedd ar y gwaith y mae deiliad y swydd yn ei wneud.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Contract cyfnod penodol o ddwy flynedd a gynigiwyd i ddeiliad swydd Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru i Ewrop i ddechrau, a hynny o fis Ionawr 2022, ond cafodd ei ehangu am 11 mis arall ym mis Tachwedd 2023 gan olygu na fyddai'r contract yn dod i ben tan ddiwedd 2024. Chwaraeodd ran sylweddol wrth atgyfnerthu cysylltiadau a gwelededd Llywodraeth Cymru ymhlith sefydliadau'r UE, yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl pontio o'r UE, gan gynnwys mwy o ymgysylltu o ran ein perthynas â'r UE a Senedd Ewrop.

Mae'r canlyniadau amlwg a ddeilliodd o hynny yn cynnwys gwahoddiadau i Weinidogion Llywodraeth Cymru siarad yn Senedd Ewrop ar ein polisïau a llwyddo i drefnu cyfarfodydd â Chomisiynwyr Ewropeaidd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo tryloywder yng Nghymru drwy hysbysu'r Senedd, fel mater o drefn, am y cyfarfodydd llywodraethu a fynychwyd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfarfodydd hyn ac, yn dilyn y cyfarfodydd hyn pan fo'n bosibl, am y canlyniadau a'r goblygiadau i Gymru. Byddwn yn mynd ar drywydd y cynnig blaenorol a wnaed gan y Prif Weinidog i swyddogion drafod sut y gellid cyflawni hyn.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus o hyd i ddod o hyd i ffordd effeithlon ac effeithiol o wneud hyn, gan gynnwys drwy sicrhau bod llifau gwybodaeth priodol rhwng swyddogion a chlercod y Senedd.

**Goblygiadau ariannol:** Dim ar hyn o bryd. Gallai'r gwahanol opsiynau arwain at gostau ychwanegol a byddai angen rhoi ystyriaeth briodol i'r costau hynny.

*Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn ceisio gwelliannau i'w thudalennau gwe ar gysylltiadau rhynglywodraethol i sicrhau bod yr holl agendâu a Communiqués yn hygyrch ar gyfer pob cyfarfod Grŵp Rhyngweinidogol a gynhaliwyd hyd yn hyn a bod diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu cynnal mewn modd amserol.*

**Derbyn.** Bydd swyddogion yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU yn hyn o beth a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi datganiadau ysgrifenedig lle y bo'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dd/G

*Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyhoeddi a rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl â'r Senedd ar y materion a drafodwyd mewn cyfarfodydd Grŵp Rhyngweinidogol a chanlyniad y trafodaethau. Dylai gyflwyno sylwadau i'r llywodraeth arall i sicrhau bod Communiqués a gyhoeddir yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i randdeiliaid a seneddwyr am ganlyniad cyfarfodydd.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi adroddiad gan y Gweinidog sy'n mynychu'r cyfarfod o Lywodraeth Cymru ar faterion a chanlyniadau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd cymorth i'r Grŵp Rhyngweinidogol yn dal i ddod o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

*Argymhelliad 17. O ystyried pwysigrwydd strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE a'r angen am graffu seneddol gwell, mae'n ddyletswydd ar seneddau a deddfwrfeydd yn y DU eu hunain i wella'r oruchwyliaeth o'r strwythurau hyn a chydweithio'n well i wella tryloywder a dwyn llywodraethau i gyfrif. Dylai pwyllgorau seneddol y DU sy'n gweithio ar y materion hyn geisio cydweithio'n agosach drwy ymgysylltu'n uniongyrchol a thrwy'r Fforwm Rhyngseneddol. Fel y nodir yng nghasgliad 1, byddwn yn ymgysylltu â'n chwaer-bwyllgorau i ystyried sut y gellid cyflawni hyn.*

**Dd/G.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r mater hwn fel mater i'r Senedd ei ystyried, a bydd yn fwy na pharod cael ei hysbysu am y mater a rhoi cymorth lle y bo'n briodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dd/G

*Argymhelliad 18. Dylai Comisiwn y Senedd a'r Bwrdd Taliadau barhau i roi cymorth priodol a digonol i Aelodau'r Senedd a Phwyllgorau'r Senedd i'w galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau a rhanddeiliaid yr UE er mwyn sicrhau bod materion allweddol o bwys i Gymru yn cael eu codi'n uniongyrchol ym Mrwsel.*

**Dd/G.** Nid mater i Lywodraeth Cymru yw hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dd/G

*Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gynnull grŵp cynghori newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE i rannu gwybodaeth, tystiolaeth a mewnbwn cydgysylltu i grwpiau a strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE. O gofio rôl y Senedd yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE, byddai'n briodol i Aelodau o'r Senedd sy'n cynrychioli'r Senedd ar y grwpiau hyn gael gwahoddiad i gymryd rhan.*

**Bydd angen ystyriaeth bellach.** Nid wyf yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i'r mater hwn. Mater i'r Prif Weinidog newydd ei ystyried fydd y mater hwn, yng nghyd-destun y berthynas a fydd yn datblygu rhwng y DU a'r UE o ran olaf 2024 ymlaen a chan ystyried sut mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn ymgysylltu â chymdeithas sifil a rhanddeiliaid yn unol ag Argymhellion 10 ac 20.

**Goblygiadau ariannol:** Dim ar hyn o bryd. Os cymerir unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd costau newydd yn gysylltiedig â chreu a gweithredu grŵp newydd.

*Argymhelliad 20. Dylai Comisiwn y Senedd hwyluso ymgysylltiad rheolaidd â sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru ar faterion y DU a'r UE. Er enghraifft, mewn cysylltiad â chyfarfodydd rheolaidd sy'n cynnwys Aelodau o'r Senedd ar rwydweithiau allanol perthnasol, cyrff y DU a'r UE, cadeiryddion pwyllgorau perthnasol a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n ymgysylltu â gwaith ar y materion hyn.*

**Dd/G.** Nid yw'r argymhelliad hwn yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn barod i ystyried y ffordd orau o weithio gydag unrhyw strwythurau y bydd y Senedd yn eu creu er mwyn sicrhau bod trefniadau effeithlon ar waith i sefydliadau ymgysylltu ac er mwyn osgoi unrhyw achosion diangen o ddyblygu gwaith, a chaiff hyn ei gynnwys fel rhan o'i thrafodaethau yn y dyfodol ar Argymhelliad 19.

**Goblygiadau ariannol:** Dd/G

*Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd bod cymorth ariannol ac adnoddau priodol ar gael i sefydliadau gymryd rhan yng Ngrŵp Cynghori Domestig y DU a'r Fforwm Cymdeithas Sifil.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y mater hwn wedi cael ei godi gan Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi a bod Llywodraeth y DU wedi

ymateb ym mis Mehefin 2023 i gadarnhau na fyddai unrhyw gyllid yn cael ei ddarparu. Byddwn yn codi'r holl faterion sy'n berthnasol i gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a nodir yn yr adroddiad hwn â Llywodraeth y DU.

**Goblygiadau ariannol:** Dim i Lywodraeth Cymru.

*Argymhelliad 22. Yn niffyg cymorth uniongyrchol gan Lywodraeth y DU, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i sefydliadau Cymreig i sicrhau parhad llais Cymreig unigryw yn y grwpiau hyn*

**Bydd angen ystyriaeth bellach.** Llywodraeth y DU ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu cyllid priodol ar gyfer y cymorth hwn, fel y cydnabuwyd yn Argymhelliad 21. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru yn gyffredinol yng nghyd-destun y perthnasoedd datblygol y disgwylir iddynt gael eu meithrin â Llywodraeth newydd y DU, newidiadau sefydliadol yn yr UE a datblygiadau yn y berthynas rhwng y DU a'r UE.

**Goblygiadau ariannol:** Dim ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gyllideb na darpariaeth i gefnogi ymdrechion i ymgysylltu â grwpiau Llywodraeth y DU a byddai disgwyl i Lywodraeth y DU dalu'r costau hynny.

*Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn barod ar gyfer nifer o gerrig milltir allweddol ar gyfer gweithredu ac adolygu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn ystod y Chweched Senedd. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid o Gymru mewn trafodaethau am eu goblygiadau. Bydd datblygu safbwyntiau Cymru cyn y cerrig milltir hyn yn hollbwysig, yn enwedig gan y gallai cylch adolygu nesaf y cytundeb ymestyn i 2031 neu y tu hwnt i hynny.*

**Derbyn mewn egwyddor.** Mae Llywodraeth Cymru yn barod i ystyried yr argymhelliad hwn yn fanylach er mwyn nodi canlyniadau penodol, a chan anelu o bosibl at ymgysylltu â chymdeithas sifil a rhanddeiliaid yn ehangach. Nid yw union natur nac amserlen yr adolygiad(au) o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn hysbys eto a chânt hefyd eu llywio gan y berthynas a fydd yn datblygu rhwng y DU a'r UE o ran olaf 2024 ymlaen. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn llywio sut y gallai Llywodraeth Cymru ymateb yn y ffordd orau i'r Argymhelliad hwn maes o law.

**Goblygiadau ariannol:** Dim ar hyn o bryd. Mae adnoddau eisoes ar waith ar gyfer ymgysylltu â strwythurau presennol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a grwpiau rhynglywodraethol. Gallai fod angen nodi adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'n ehangach gan ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu a gweithgareddau ychwanegol helaeth, a bydd angen ystyried hynny maes o law.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

6 Chwefror 2024

Annwyl David,

Ar 26 Ionawr, ysgrifennais atoch yn nodi fy ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Wrth ymateb i argymhelliad 25, cytunais i ysgrifennu atoch yn nodi barn ar bob un o'r argymhellion ynghylch newidiadau technegol i Atodlenni 1 a 2 a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

Rwyf wedi cynnwys fy ymateb i'r newidiadau technegol arfaethedig yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad: Ymateb i'r newidiadau technegol a gynigiwyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Biliau Diwygio**

| Arsylwadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar y Bil | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **1. Atodlen 1 – cyhoeddi cynrychiolaethau yn dilyn yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau**<br><br>(Ceisir gwelliannau i baragraff 7(5)(a) o Atodlen 1 er mwyn ei gwneud yn glir bod cyhoeddi cynrychiolaethau yn ymwneud â'r ail gyfnod o gynrychiolaethau) | **Derbyn** - Rwy'n bwriadu cyflwyno'r gwelliant arfaethedig. |
| **2. Atodlen 1 – cysylltu â’r cam adroddiad terfynol**<br><br>(Ceisir gwelliannau i baragraffau 7(5) ac 8 o Atodlen 1 er mwyn creu cysylltiad mwy amlwg rhwng diwedd yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau a pharatoi a chyhoeddi'r adroddiad terfynol) | **Gwrthod** - Wedi ystyriaeth fanwl, nid wyf yn bwriadu cyflwyno'r gwelliannau arfaethedig. Mae trefn y prosesau amrywiol y mae angen eu cynnal cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn glir. Mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i'r adroddiad terfynol amlinellu manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad a'r rhesymau drostynt. Yn ogystal, bydd y Comisiwn, fel corff cyhoeddus, yn cael ei rwymo gan egwyddorion cyfraith gyhoeddus. I gydymffurfio ag egwyddorion Gunning o ran ymgynghori, bydd angen i'r Comisiwn gynnal yr ail gyfnod o gynrychiolaethau ac ystyried y cynrychiolaethau hynny wrth wneud ei benderfyniadau sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| **3. Atodlen 2 – egwyddor newid lleiafsymiol i etholaethau’r Senedd**<br><br>(Ceisir gwelliannau fel bod y rhwymedigaeth i geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl i etholaethau'r Senedd yn cael ei dileu o'r Bil, neu fod adran 49C(2)(b) yn cael ei diwygio fel bod y dymunoldeb lleihau newid yn ffactor perthnasol i'r Comisiwn) | **Nodwyd** – Rwy'n parhau i ystyried barn a sylwadau'r Comisiwn ar y darpariaethau hyn, yn ogystal â'r gwelliannau drafftio penodol arfaethedig. |
| **4. Atodlen 2 – rheoli amser mewn gwrandawiadau cyhoeddus**<br><br>(Ceisir gwelliannau i adran 49G er mwyn ei gwneud yn glir wrth ddarllen is-adran (8) fod gan Gadeirydd y gwrandawiadau y pŵer (yn is-adran (9)) i gyfyngu ar y cynrychiolaethau sydd i'w gwneud | **Derbyn (mewn egwyddor)** - Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r mater a nodwyd gan y Comisiwn, a byddaf yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddiwygio'r ddeddfwriaeth. |

| | |
|---|---|
| yn ystod y trafodion pe bai amser yn brin) | |
| **5. Atodlen 2 – cynnwys yr ail adroddiad**<br><br>(Ceisir gwelliannau i adran 49H fel bod cofnodion gwrandawiadau cyhoeddus a'r cynrychiolaethau a geir yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau yn cael eu cyhoeddi ar wahân i'r ail adroddiad. Ceisir gwelliant hefyd er mwyn ei gwneud yn gliriach bod cyhoeddi cynrychiolaethau yn ymwneud â'r ail gyfnod o gynrychiolaethau) | **Derbyn (mewn egwyddor)** - Rwy'n nodi pryder y Comisiwn ynghylch maint posibl yr ail adroddiad, felly rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a nodwyd, a byddaf yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Byddaf hefyd yn ystyried sut y gall unrhyw welliannau egluro bod y gofyniad i gyhoeddi ar y cam hwn o'r broses yn ymwneud â'r ail gyfnod o gynrychiolaethau. |
| **6. Atodlen 2 – cyhoeddi cynrychiolaethau ar ôl y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau**<br><br>(Ceisir gwelliannau i adran 49H er mwyn ei gwneud yn glir bod cyhoeddi cynrychiolaethau yn ymwneud â'r cyfnod olaf o gynrychiolaethau) | **Derbyn** - Rwy'n bwriadu cyflwyno'r gwelliant arfaethedig hwn. |
| **7. Atodlen 2 – cysylltu â'r cam adroddiad terfynol**<br><br>(Ceisir gwelliannau i adrannau 49H a 49I er mwyn creu cysylltiad mwy amlwg rhwng diwedd y cyfnod terfynol ar gyfer cynrychiolaethau a pharatoi a chyhoeddi'r adroddiad terfynol) | **Gwrthod** – yn unol â'm hymateb i'r gwelliant arfaethedig rhif 2 ar gyfer darpariaethau yn Atodlen 1, nid wyf ychwaith yn bwriadu cyflwyno'r gwelliannau arfaethedig cyfatebol i Atodlen 2, am yr un rhesymau a nodir uchod. |
| **8. Atodlen 2 – cynnwys yr adroddiad terfynol**<br><br>(Ceisir gwelliannau i adran 49I (gan ystyried sut y mae'n rhyngweithio ag adran 49J) fel bod yn rhaid i'r adroddiad terfynol nodi pob un o'r 16 etholaeth y dylid rhannu Cymru iddynt yn hytrach na dim ond nodi'r newidiadau arfaethedig yn unig). | **Derbyn (mewn egwyddor)** - Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r mater a nodwyd gan y Comisiwn, a byddaf yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o ddiwygio'r ddeddfwriaeth. |

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Copïau at:
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

07 Chwefror 2024

Annwyl Russell,

Yn ystod fy ymddangosiad yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 17 Ionawr, cytunais i roi manylion am y cyllid camddefnyddio sylweddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Hon fu'r gyllideb fwyaf heriol ers datganoli, ond serch hynny rwyf wedi blaenoriaethu ein buddsoddiad mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau rheng flaen hanfodol er mwyn sicrhau bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn parhau i gael mynediad at wasanaethau a chymorth. Fodd bynnag, mae hyn wedi golygu y bu'n rhaid gwneud nifer o benderfyniadau anodd.

Er gwaethaf y gyllideb heriol, rwyf wedi parhau i ddiogelu ein cyllid camddefnyddio sylweddau, ac mae'r cyllid hwnnw, yn gyffredinol, wedi codi i ychydig dros £67m. Rhoddir Cyllid Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn uniongyrchol i'n Byrddau Cynllunio Ardal, a bydd hwn yn codi £2m yn 2024/25 i £41m. Bydd y cynnydd hwn o £2m yn ein cyllid yn cael ei ddyrannu i'r dyraniadau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc a chyllid anghenion cymhleth, y ddau yn cynyddu £1m, i £6.25m a £4.5m yn y drefn honno. Yn ogystal â hynny, o fewn y £41m byddwn yn parhau i gefnogi'r defnydd hynod lwyddiannus o buprenorffin (Buvidal) i'w chwistrellu, drwy ddarparu £3m y mae dros hanner ohono yn mynd tuag at gefnogi rhagnodwyr cyfiawnder troseddol yn y gymuned. Mae Byrddau Iechyd yn cael cyllid ar gyfer eu gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau drwy eu llythyrau dyrannu, a bydd hyn yn cynyddu £812k i ychydig dros £22.9m yn 2024-25. Mae manylion y penderfyniadau ariannu hyn i'w gweld yn Atodiad A.

Gofynnodd y pwyllgor am gael manylion unrhyw gymorth a ddarperir gennym ar gyfer Brynawel. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu Brynawel yn uniongyrchol drwy roi cyllid

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

refeniw, gan fod lleoliadau'n cael eu hariannu naill ai gan awdurdodau lleol neu drwy'r £2m sydd wedi ei glustnodi ar gyfer triniaeth breswyl a roddir i Fyrddau Cynllunio Ardal. Mae lleoliadau'n cael eu gwneud, o dan arweiniad dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth, drwy ein fframwaith Rehab Cymru. Fodd bynnag, rwy'n falch o allu dweud ein bod wedi dyfarnu £795,000 o gyllid cyfalaf i Frynawel ym mis Chwefror 2023 ar gyfer ehangu ei gwasanaeth trwy brynu ac adnewyddu eiddo cyfagos.

Yn ogystal â'n cyllid ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, rydym hefyd yn parhau i gefnogi ein Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-Waith. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl trwy ddarparu cymorth cymheiriaid, ac fe'i hariennir gyda £5.4m yn 2024-25. Nod y gwasanaeth yw cefnogi hyd at 10,000 o bobl, gan gynnwys 3,000 o bobl ifanc, ledled Cymru rhwng ei ddechrau ym mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2025. Mae'r gwasanaeth hwn yn olynu’r gwasanaeth blaenorol a ariannwyd gan gyllid Ewropeaidd rhwng 2016-2022.

Cyfeiriais at Raglen yr Heddlu ar gyfer Ysgolion Cymru yn y Pwyllgor. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cael ei hariannu drwy'r gyllideb camddefnyddio sylweddau, ond yn wyneb toriadau posibl i wasanaethau rheng flaen rwyf wedi penderfynu blaenoriaethu ein buddsoddiad camddefnyddio sylweddau mewn modd sy'n sicrhau mynediad at wasanaethau a chymorth hanfodol. O ganlyniad, bu'n rhaid i mi dynnu cyfraniad cyllid Llywodraeth Cymru o £1.98m bob blwyddyn ariannol yn ôl oddi wrth y rhaglen, a hynny o 31 Mawrth eleni. Mae’r sefyllfa o ran ystod o faterion pwysig yn y dirwedd llesiant dysgwyr wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno'r rhaglen. Mae llawer o feysydd bellach yn destunau a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r dysgu iechyd a llesiant gorfodol sy'n digwydd yn ysgolion Cymru. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) yn cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein, a thrais domestig. Bwriedir datblygu mwy o adnoddau i ysgolion ar gyfer llywio dysgu mewn perthynas ag ystod o faterion iechyd a llesiant, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr mewn addysg i sicrhau bod y rhaglen yn darparu'r profiad dysgu mwyaf buddiol posibl.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Heddlu er mwyn gweithio drwy oblygiadau’r ffaith bod cyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru wedi ei dynnu yn ôl oddi wrth y rhaglen. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal ein cysylltiadau â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae'r Comisiynwyr hyn yn bartneriaid gwerthfawr.

Rwy'n anfon copïau at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Atodiad A.

| | 2023–24 | 2024–25 | Newid |
|---|---|---|---|
| Y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | £39.063m | £41.063m | +£2m |
| Rhaglen yr Heddlu ar gyfer Ysgolion Cymru | £1.980m | £0 | -£1.980m |
| Cyffuriau ac Alcohol* | £1.542m | £1.022m | -£520k |
| Cyfalaf | £2.5m | £2.5m | £0 |
| Cyllid wedi'i glustnodi y Bwrdd Iechyd | £22.102m | £22.912m | +£812k |
| **Cyfanswm cyffredinol** | **£67.187m** | **£67.497m** | **+£312k** |

*Mae'r Gyllideb Cyffuriau ac Alcohol yn cefnogi gwasanaethau a gweithgarwch canolog allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, WEDINOS, Naloxone a gwerthusiadau o MUP a Buvidal.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Lucy Frazer CB AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Llywodraeth y DU

09 Chwefror 2024

**Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol**

Annwyl Lucy,

Yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2024, bu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu. y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol yn trafod cynlluniau Llywodraeth y DU i gadarnhau Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol.

I'n helpu i ystyried y mater hwn ymhellach, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth a ganlyn:

1. Pa fanteision y gellir eu disgwyl o fod yn rhan o'r rhestr genedlaethol, megis mynediad at gyllid neu fentrau i gefnogi treftadaeth anniriaethol?

2. O ran y paneli cymeradwyo a fydd yn cael eu dyrannu i bob cenedl, sut y caiff y panel i Gymru ei sefydlu, a pha lywodraeth fydd yn gyfrifol amdano? Er enghraifft, ai Llywodraeth Cymru fydd yn pennu aelodaeth y panel yng Nghymru?

3. Sut y mae Llywodraeth y DU yn rhagweld 'rhestr gydnaws' yn gweithredu, a sut y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i gynnal trefniadau'r Confensiwn?

4. Sut y bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig i sicrhau y caiff y rhestr ei chynnal?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

09 Chwefror 2024

**Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol**

Annwyl Mark,

Yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2024, buom yn ystyried y cyntaf o'n hadroddiadau monitro chwarterol ar Gysylltiadau Rhyngwladol, ac yn trafod cynlluniau Llywodraeth y DU i gadarnhau Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol.

I'n helpu i ystyried y mater hwn ymhellach, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth a ganlyn:

1. Barn Llywodraeth Cymru ynghylch:
    a) Y DU yn cadarnhau'r Confensiwn;
    b) gwerth a manteision aelodaeth y DU i Gymru; a
    c) threftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yr hoffai ei gweld yn cael ei chynnwys ar y rhestr, a pham.
2. Pa gynlluniau sydd ar waith i Lywodraeth Cymru goladu ei rhestr ei hun.
3. A yw Llywodraeth Cymru wedi awgrymu treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol i'w chynnwys, a'r rhesymeg dros ei chynnwys.

4. A yw Llywodraeth Cymru o blaid cynnwys yr enghreifftiau a restrir yn y datganiad i'r wasg gan Lywodraeth y DU, megis rasys ffordd Nos Galan, canu Plygain, y Fari Lwyd, Dydd Gŵyl Dewi, Sioe Frenhinol Cymru, Dydd Santes Dwynwen ac Eisteddfodau.

5. A ellid defnyddio rhestrau presennol, megis yr un a gynhelir gan Museums Galleries Scotland.

6. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i baratoi ar gyfer cadarnhad a pha mor aml y maent yn cydweithio fel hyn.

7. Cyfraniad Llywodraeth Cymru hyd yma at rwymedigaethau rhyngwladol y DU yn y maes hwn, gan gynnwys cytundebau diwylliannol rhyngwladol fel y Confensiwn hwn.

8. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at ddylunio'r arolwg cyhoeddus sy'n rhan o ymgynghoriad Llywodraeth y DU.

9. A fydd angen adnoddau ychwanegol i goladu a chynnal rhestr Cymru, a beth yw'r adnoddau hyn.

10. Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau y caiff rhwymedigaethau'r Confensiwn eu monitro ac y cydymffurfir â hwy.

11. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod tarddiad treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn unigryw i Gymru gan fod llawer o'n treftadaeth a'n traddodiadau diwylliannol yn rhannu gwreiddiau â phobloedd Celtaidd o bob rhan o Ewrop.

Yn olaf, ac yng nghyd-destun y drafodaeth hon, byddem yn ddiolchgar o ddeall beth yw barn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â galwadau am ddynodi Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl gyhoeddus genedlaethol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 08 Mawrth 2024. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
huw.Irranca-Davies@senedd.wales

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (y Bil) dyddiedig 31 Ionawr.

Mae eich llythyr yn cyfeirio at drafodaethau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch cymal 114 y Bil (marchnata uniongyrchol at ddibenion ymgysylltu democrataidd) ac yn gofyn fy marn a manylion pellach ar nifer o faterion.

Mewn perthynas â'ch cwestiwn ynghylch asesiad Llywodraeth Cymru o gysylltiad cymal 114 â Rheol Sefydlog 29. Mae cymalau 108 i 119 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (Rheoliadau PEC) ac mewn perthynas â hwy. Mae'r Rheoliadau PEC hyn yn ymwneud â diogelu preifatrwydd gwrthrych y data mewn perthynas â chyfathrebu electronig. Felly, i'r graddau y mae Rheoliadau PEC yn gymwys i brosesu data personol, mae cymal 114 yn ymwneud â mater a gadwyd yn ôl o ddiogelu data personol (paragraff 170 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Felly, nid yw Rheol Sefydlog 29 yn gysylltiedig.

Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru gan Weinidogion Llywodraeth y DU wrth baratoi'r cymal hwn, ac nid yw ei sylwedd na'i fwriad polisi wedi'i godi gyda ni. Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaethpwyd yn nhrafodaeth Senedd y DU ar y ddarpariaeth hon.

Mae fy swyddogion wedi siarad â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU sydd wedi cynghori nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i baratoi rheoliadau gan ddefnyddio'r pŵer newydd hwn ar gyfer etholiadau datganoledig. Pe bai'r sefyllfa hon yn newid, byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,



**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

31 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad wedi bod yn ystyried ac yn adrodd ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU (y Bil).

Yn ein cyfarfod ar 22 Ionawr 2024, lle y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 ar y Bil, gwnaethom drafod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â marchnata uniongyrchol at ddibenion ymgysylltu democrataidd (cymal 114 yn y Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin). Yn ôl a ddeallwn, mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'r cymal hwn yn ymwneud â'r broses cydsyniad deddfwriaethol yng Nghymru, ac nid yw memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd hyd yma wedi cynnwys cyfeiriad at y cymal hwn fel darpariaeth berthnasol.

Gwnaethom hefyd drafod eitem yn y Financial Times a gyfeiriodd at lythyr gan y Gweinidog Data a Seilwaith Digidol ar y pryd, Syr John Whittingdale, at Aelod o Senedd y DU a oedd yn cadarnhau, yn ôl y sôn, y gallai Llywodraeth y DU yn y dyfodol 'ddiffodd' dros dro rhai rheolau marchnata uniongyrchol yn y cyfnod cyn etholiad.

Oherwydd ein hystyriaeth o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol a'n diddordeb ehangach mewn materion cyfansoddiadol, byddem yn croesawu cael eich barn a rhagor o fanylion ynghylch nifer o faterion:

1. Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o gymal 114 yn ymwneud â Rheol Sefydlog 29 (os o gwbl)?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

2. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith bosibl y ddarpariaeth ar etholiadau datganoledig Cymru?

3. Mae cymal 114(5) o’r Bil yn darparu bod rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan y pŵer hwn, ymgynghori â’r Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw bersonau eraill y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried eu bod yn briodol. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch a ymgynghorid â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw effaith ar y defnydd o ddata sy’n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru gan reoliadau a wneir o dan gymal 114?

4. A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynllun gan Lywodraeth y DU i 'ddiffodd' rheolau marchnata uniongyrchol cyn etholiad cyffredinol yn y DU?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 14 Chwefror 2024.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CG/PO/40/2024
Ein cyf/Our ref: qA1762325

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Byddaf yn ymateb i'r adroddiad yn llawn maes o law. Yn y cyfamser, gofynnoch yn yr adroddiad o dan argymhellion 13 a 14 i Lywodraeth Cymru ddarparu datganiad o fwriad polisi cyn Cyfnod 2. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys y datganiadau hyn isod.

Yn gyntaf, mewn perthynas ag argymhelliad 13 i gyhoeddi datganiad polisi sy'n bwriadu amlinellu'r swyddogaethau y caniateir eu rhoi i bersonau neu gategorïau o berson a bennir mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 27 o'r Bil, bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod platfform yn cael ei ddarparu sy'n darparu gwybodaeth hygyrch, dibynadwy, annibynnol a chywir sy'n cefnogi pleidleiswyr i gymryd rhan yn ein system ddemocrataidd. Rydym am i bob pleidleisiwr allu cael gafael ar wybodaeth sy'n eu cefnogi i ddeall (er enghraifft) pa etholiadau sy'n digwydd, opsiynau ynghylch sut i fwrw eu pleidlais, y math o system bleidleisio sy'n cael ei defnyddio, lle gallant bleidleisio a thros bwy y gallant bleidleisio.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i bennu egwyddorion cynnwys, meini prawf hygyrchedd a gofynion iaith, a phenderfynu ar y ffordd orau o osod y rheoliadau ar sut y dylid cyflawni'r swyddogaethau hyn. Rhan o gyflawni hyn fydd rhoi swyddogaethau ar westeiwr i gyflawni, gweithredu a chynnal y platfform. Bydd ein gwaith gyda rhanddeiliaid yn ein helpu i fireinio a phenderfynu ar y ffordd fwyaf priodol i reoliadau alluogi cyflwyno'r platfform, gan nodi manylion a sicrhau tryloywder.

Mae'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd mewn rheoliadau yn sicrhau hyblygrwydd i ystyried y cyd-destun cyfreithiol a thechnolegol sy'n symud yn gyflym, gyda'r craffu priodol ar waith.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ail, mewn perthynas ag argymhelliad 14 i gyhoeddi datganiad polisi sy'n bwriadu amlinellu'r swyddogaethau y caniateir eu rhoi i bersonau o fewn rheoliadau a wneir o dan adran 29 o'r Bil, yn dibynnu ar natur y cynllun ariannol, rhagwelir y gallai'r swyddogaethau y gellir eu rhoi o dan adran 29(8) fod yn rhai sy'n caniatáu, ymhlith eraill, y canlynol:

- sefydlu meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun penodol a mecanweithiau galluogi i sicrhau bod y meini prawf yn cael eu bodloni cyn dyrannu cyllid.

- cynhyrchu canllawiau i'r rhai sydd â diddordeb mewn cael mynediad at gynllun a sut y bydd yn gweithredu.

- trefniadau ar gyfer taliadau cyllid sy'n cwrdd â'r arfer gorau o ran rheoli ac archwilio ariannol.

- hyrwyddo'r cynlluniau a'r cyngor am yr hyn y bydd cynllun yn ei gefnogi a beth na fydd yn ei gefnogi.

- trefniadau gweinyddol ar gyfer cynllun gan gynnwys mecanweithiau adrodd o ran sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio ym mhob cynllun. Er y bydd angen i unrhyw sefydliad sy'n gweithredu cynllun cymorth ariannol gael manylion llawn ymgeiswyr a derbynwyr cymorth, ni fydd yn ofynnol i'r wybodaeth bersonol hon gael ei rhannu y tu allan i'r cynllun.

Wrth weithredu cynllun byddem yn disgwyl i sefydliadau weithredu i safonau uchel o lywodraethu a gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn bodloni eich cais am ddatganiadau polisi cyn Cyfnod 2 ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi wrth i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) fynd rhagddo drwy'r broses graffu.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

CC: John Griffiths, Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Peredur Owen Griffiths, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid

12 fed Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu gwaith craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 26 Ionawr 2024.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad 1. Ni fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi cynnal yr egwyddorion a'r rhesymu sylfaenol ar gyfer fy mhenderfyniad hyd y bo modd.

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â'u Adroddiadau Cyfnod 1 ac mae'r llythyrau wedi'i gopïo at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Broses y Senedd.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol nodi a yw rhaglen bresennol Llywodraeth Cymru o ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r Bil yn debygol o arwain at Lywodraeth Cymru yn cyflwyno diwygiadau polisi sylweddol yng nghyfnod 2 a/neu 3 |
| **Derbyn.** Nid ydym yn rhag-weld y byddwn yn cyflwyno diwygiadau polisi sylweddol yng Nghyfnod 2 na 3 yn sgil ein cydweithio parhaus â rhanddeiliaid. |
| **Argymhelliad 2.** Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi syniad o ba bryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil cydgrynhoi mewn perthynas â chyfraith etholiadol Cymru. |
| **Derbyn.** Fel y nodais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, mae'r maes cyfraith hwn yn barod i'w gydgrynhoi. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fy mod newydd osod rhaglen ddiwygiedig gerbron y Senedd o dan adran 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae hyn yn ei gwneud yn glir y byddwn yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith ar brosiectau posibl, ac mae trafodaethau anffurfiol â'r Comisiwn eisoes wedi'u cynnal ynglŷn â'r posibilrwydd o gydgrynhoi cyfraith etholiadol. Byddai hwn yn brosiect a fyddai'n gofyn am adnoddau sylweddol, ac felly, byddwn yn datblygu'r gwaith hwn gyda'r bwriad i'r Llywodraeth nesaf wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. |
| **Argymhelliad 3.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu rhagor o fanylion am y mathau o swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru eu rhoi i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gan ddefnyddio'r pŵer o fewn adran 1 o'r Bil. |
| **Gwrthod.** Mae swyddogaethau arfaethedig y Bwrdd Rheoli Etholiadol a nodir yn y Bil yn gyson â'r dull a roddir ar waith yn yr Alban. Mae'r pŵer yn adran 20E(3)(c) o'r Bil yn angenrheidiol oherwydd efallai, yn y dyfodol, y bydd angen i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau pellach sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadol i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ac mae'n bwysig cael yr hyblygrwydd hwn. Un enghraifft o pan allai darpariaethau a bennir mewn rheoliadau ychwanegu at swyddogaethau'r Comisiwn yw y rhagwelir y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn rhoi'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ar waith a gallai rheoliadau roi swyddogaethau i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol mewn perthynas â'r platfform hwnnw.<br><br>Nid yw'r pŵer hwn yn awdurdodi creu swyddogaethau newydd ar gyfer y Comisiwn, ond mae'n caniatáu dirprwyo swyddogaethau'r Comisiwn a grëir drwy ddulliau eraill (p'un ai mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth) i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. |
| **Argymhelliad 4.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu mai dim ond ar ôl cwblhau cynllun peilot o dan adran 5(4) o'r Bil y caniateir dod ag adran 3 i rym. |
| **Derbyn.** Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant. |
| **Argymhelliad 5.** Dylid diwygio'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, ar adeg gosod rheoliadau cynlluniau peilot yn y Senedd sydd i'w gwneud heb gydsyniad prif gyngor, hefyd osod datganiad i esbonio'r penderfyniad i fwrw ymlaen heb gael y caniatâd hwnnw. |
| **Derbyn.** Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant. |
| **Argymhelliad 6.** Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a wneir o dan adran 5 sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. |
| **Gwrthod.** Bydd y fframwaith a sefydlir gan y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu'r cynlluniau peilot. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â natur gyfyngedig cynlluniau peilot o ran amser a'r amserlen etholiadol ehangach, yn golygu ei bod yn aml yn angenrheidiol deddfu ar gyfer cynlluniau peilot yn gyflym. Bydd unrhyw newidiadau parhaol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o gynllun peilot llwyddiannus yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. |
| **Argymhelliad 7.** Dylid diwygio’r Bil i hepgor adran 8. |

| |
|---|
| **Derbyn.** Bwriad yr adran hon oedd sicrhau bod gweithdrefn cynlluniau peilot yn gallu addasu er mwyn adlewyrchu natur newidiol arferion etholiadol. Ar y sail bod adran 5 yn rhoi disgrifiad cyflawn o feysydd posibl o ran cynlluniau peilot, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant i ddileu'r adran hon. |
| **Argymhelliad 8. Dylid diwygio’r Bil i ddarparu na chaiff rheoliadau diwygio etholiadol a wneir gan ddefnyddio’r pŵer yn adran 19 greu, dileu nac addasu unrhyw drosedd.** |
| **Gwrthod.** Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen creu, dileu neu addasu troseddau wrth wneud rheoliadau diwygio etholiadol. Yn yr achosion hyn, byddai'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (gweler adran 20(3) a (4)), ond byddai'r Senedd, yn ogystal, yn gallu ceisio uwchweithdrefnau cadarnhaol o ran y rheoliadau gan sicrhau craffu llym ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig. |
| **Argymhelliad 9.** Dylid diwygio’r Bil i ddarparu na chaiff rheoliadau diwygio etholiadol roi, dileu nac addasu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth. |
| **Gwrthod.** Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen rhoi, dileu neu addasu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth wrth wneud rheoliadau diwygio etholiadol. Yn yr achosion hyn, byddai'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (gweler adran 20(3) a (4)), ond byddai'r Senedd, yn ogystal, yn gallu ceisio uwchweithdrefnau cadarnhaol o ran y rheoliadau gan sicrhau craffu llym ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig. |
| **Argymhelliad 10.** Dylid diwygio’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, pan fyddant yn penderfynu peidio â derbyn yn llawn neu’n rhannol argymhelliad un o bwyllgorau’r Senedd mewn perthynas â rheoliadau diwygio etholiadol drafft, osod datganiad i egluro eu penderfyniad. |
| **Derbyn.** Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant. |
| **Argymhelliad 11.** Dylid diwygio'r Bil i bennu pa gorff fydd yn gyfrifol am gynnal platfform gwybodaeth etholiadau Cymreig. |
| **Gwrthod.** Ni ddylid clymu bodolaeth y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ynghlwm wrth sefydlu y Bwrdd Rheoli Etholiadol a'i fodolaeth barhaus. Byddai clymu'r platfform ynghlwm wrth y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn lleihau'r hyblygrwydd i ymateb i ddatblygiadau parhaus yn y maes hwn. |
| **Argymhelliad 12.** Dylid diwygio’r Bil i bennu’r swyddogaethau y gellir eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 o’r Bil. |
| **Gwrthod.** Mae cynnwys manylion mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil yn ddull cytbwys i alluogi mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod anghenion gweithredol y platfform, ei ddefnyddwyr a'r gwesteiwr yn cael eu diwallu a'u datblygu gydag amser. Mae'n ystyried y cyd-destun cyfreithiol a thechnolegol sy'n symud yn gyflym, gyda'r craffu priodol ar waith. |
| **Argymhelliad 13.** Os na chaiff argymhelliad 12 ei dderbyn, dylai Llywodraeth Cymru, cyn diwrnod cyntaf Cyfnod 2 o’r Bil, gyhoeddi datganiad o fwriad polisi i amlinellu’r swyddogaethau y gellir eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 o’r Bil. |
| **Derbyn.** Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r bwriad polisi. |
| **Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru, cyn diwrnod cyntaf Cyfnod 2 o’r Bil, gyhoeddi datganiad o fwriad polisi i amlinellu’r swyddogaethau y gellir eu rhoi i unigolion o fewn rheoliadau a wneir o dan adran 29 o’r Bil. |
| **Derbyn.** Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r bwriad polisi. |
| **Argymhelliad 15.** Dylid diwygio'r Bil i ddisodli cyfeiriadau at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda chyfeiriadau at "bwyllgorau priodol y Senedd", neu eiriad tebyg o'r fath, i roi sicrwydd yn y gyfraith. |
| **Derbyn.** Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant. |
| **Argymhelliad 16.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a wneir o dan adrannau 41 a 51 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. |
| **Gwrthod.** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai un o'r ffactorau sy'n tueddu i awgrymu mai'r weithdrefn gadarnhaol sydd i'w chymhwyso yw y gellir defnyddio'r pŵer i |

effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r pwerau cul hyn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol wedi'u cyfyngu i ddiwygio'r cyfnod adolygu ym mhob achos, sy'n fanylyn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer eisoes i newid y cyfnod adolygu drwy wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol – gweler adrannau 138(6) a 174(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyrir bod defnyddio'r weithdrefn negyddol yn briodol, yn gymesur ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

1 Chwefror 2024

Annwyl Peredur

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gyhoeddwyd ar 26 Ionawr ynghylch y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) fel rhan o graffu cyfnod 1.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ystyriol Cam 1. Rwyf wedi ystyried yn ofalus adroddiad y pwyllgor ac rwy'n hapus i dderbyn yr holl argymhellion. Gweler fy ymateb yn Atodiad 1 i'r argymhellion cyn i'r Ddadl Egwyddorion Cyffredinol Cyfnod 1.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiadau o'r Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan y Bil hwn. |
| **Derbyniwyd**. Rydym wedi ymrwymo i hyn o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am gostau sy'n ymwneud â newidiadau i'r Systemau Rheoli Etholiadol wrth iddynt ddod yn glir; gan gynnwys manylion ar sut yr asesir cost effeithiolrwydd cynlluniau peilot unigol. |
| **Derbyniwyd**. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am gostau wrth iddo ddod yn amlwg. Bydd gwerthusiad llawn a chadarn o'r holl beilotiaid yn digwydd gan gynnwys y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau i wasanaethau EMS. Bydd hyn yn ofynnol i unrhyw gynigion peilot a gyflwynir i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a bydd yn ofynnol iddo adrodd ar oblygiadau ariannol cynlluniau peilot arfaethedig wrth ei werthuso. |
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gostau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu hygyrchedd etholiadau i bleidleiswyr anabl. |
| **Derbyniwyd**. Byddwn yn nodi rhagor o wybodaeth yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau'r ymchwil y mae'n bwriadu ei gomisiynu i hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n ceisio swyddi etholedig. Mae hyn yn cynnwys sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu a'i choladu; a sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth honno i wneud ymyriadau wedi'u targedu. |
| **Derbyniwyd**. Byddwn yn darparu canlyniad yr ymchwil a wnaed pan fydd wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar rwystrau i gyfranogiad mewn democratiaeth leol oherwydd amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Yn ehangach byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i nodi rhwystrau i gyfranogiad unigolion mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ymgysylltu, gwersi a ddysgwyd o fentrau presennol ac adborth drwy adroddiadau ac astudiaethau ehangach. Bydd y dull hwn yn llywio ymyriadau a mentrau yn y dyfodol sydd wedi'u targedu at rwystrau a nodwyd drwy'r gwaith hwn. |
| **Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod cyflwyno asesiad fforddiadwyedd, fel yr un a ddarperir yn y Bil hwn, yn fodel arfer da ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'r dull newydd hwn. |
| **Derbyniwyd**. Rydym yn ddiolchgar am sylwadau'r Pwyllgor. |

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths
Cadeirydd
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

CC: Peredur Owen Griffiths, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid
Huw Irranca Davies, Cadeirydd, Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

12 fed Chwefror 2024

Annwyl John,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu gwaith craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 26 Ionawr 2024.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad. Ni fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi cynnal yr egwyddorion a'r rhesymu sylfaenol ar gyfer fy mhenderfyniad hyd y bo modd.

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u Adroddiadau Cyfnod 1 ac mae'r llythyrau wedi'i gopïo at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Broses y Senedd.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

<table>
<tr><th>Argymhelliad y Pwyllgor</th><th>Ymateb Llywodraeth Cymru</th></tr>
<tr><td>Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai’r Senedd gytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).</td><td>Nodwyd.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ar wyneb y Bil hwn y bydd swyddogion canlyniadau yn ddarostyngedig i Safonau’r Gymraeg</td><td>Gwrthod. Yn y cyd-destun etholiadol, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i sicrhau fod pawb yn gallu cymryd rhan yn llawn yn naill iaith swyddogol ein gwlad. Gan ystyried bod y rheolau manwl ynghylch gweithredu etholiadau Cymreig wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcan hwn drwy wneud newidiadau i'r rheolau manwl hynny. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol i benderfynu ar y ffordd orau o wella darpariaeth ddwyieithog etholiadau.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd ganddo ar y Bil ac y dylai fersiynau wedi’u diweddaru gael eu cyhoeddi i ystyried newidiadau a wneir i’r Bil yn ystod y cyfnodau gwella.</td><td>Derbyn. Rydym bellach wedi cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>https://www.llyw.cymru/bil-etholiadau-chyrff-etholedig-cymru-asesiad-or-effaith-ar-gydraddoldeb</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gryfhau atebolrwydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i’r Senedd. Hoffem weld y Bil hwnnw’n cael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad am i adroddiadau blynyddol y Comisiwn fod yn destun dadl yn y Senedd.</td><td rowspan="2">Derbyn mewn egwyddor.<br><br>Rydym yn ymwybodol o ddadleuon a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Biliau Diwygio a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad mewn perthynas ag adrannau 7 a 19 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) sy'n gosod dyletswyddau ar y Llywydd. Er nad ydym yn cytuno bod y dull hwn yn arwain at broblemau cyfansoddiadol, wrth ystyried enghreifftiau eraill o ddyletswyddau statudol a osodir ar y Llywydd ac na fydd y dyletswyddau hynny'n cyfyngu ar Senedd yn y dyfodol i gamau gweithredu penodol, rydym yn gyndyn o gyflwyno gwelliannau a fyddai'n gosod dyletswyddau ffurfiol ar y Senedd fel yr argymhellir.<br><br>Ni fyddai angen gofyniad deddfwriaethol ar y Senedd i graffu ar adroddiad blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ond byddem yn croesawu'r sylw ychwanegol ar gylch gwaith ehangach y Comisiwn. Byddem hefyd yn fodlon rhoi gwybod i'r Senedd am yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer Cadeirydd y Comisiwn a fyddai'n dod i'r</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gynnwys darpariaeth i’w gwneud yn ofynnol i wrandawiadau cyn penodi gan y Senedd i gael eu cynnwys yn y broses benodi ar gyfer swydd Cadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | amlwg o'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn hwyluso gwrandawiad cyn penodi.<br><br>Wrth graffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), argymhellodd Pwyllgor y Biliau Diwygio y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried atebolrwydd y Comisiwn yn rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026 (argymhelliad 25). Ni fyddem yn dymuno rhag-weld yr adolygiad hwnnw ac felly nid yw'n fwriad gennym ddiwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar hyn o bryd. Byddem wrth gwrs yn rhoi sylw gofalus i argymhellion y Pwyllgor gan ystyried rhoi argymhellion perthnasol ar waith. |
| Argymhelliad 6. Rydym yn argymell, yn ogystal â nodi y dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn gyn-swyddog etholiadau, y dylai'r Bil nodi hefyd fod rhaid i'r cadeirydd fod â phrofiad perthnasol a diweddar, megis fel swyddog etholiadau o fewn cyfnod penodol cyn cael ei benodi. | Gwrthod. Mae'r Bil eisoes yn sicrhau bod gan aelodau o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol brofiad etholiadol. Ein dull a ffefrir, sy'n cael ei gefnogi gan randdeiliaid, yw peidio â bod yn rhy ragnodol mewn deddfwriaeth. Bydd y broses penodiadau cyhoeddus yn sicrhau digon o brofiad perthnasol. |
| Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phartïon perthnasol, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, ac ystyried eu barn wrth benderfynu pryd y dylai'r darpariaethau mewn perthynas â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gychwyn | Derbyn. Nid yw amseriad y pŵer cychwyn ar gyfer y Bwrdd Rheoli Etholiadol wedi'i bennu yn adran 70 fel bod modd inni ddod ag ef i rym drwy Orchymyn ar yr adeg briodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid er mwyn rhoi sylw i hyn. |
| Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ystyried ble yng Nghymru i gynnal cynlluniau peilot yn ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais, sicrhau bod amrywiaeth o ardaloedd yn cael eu cynnwys. Credwn y dylai'r ardaloedd a ddewisir gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, ardaloedd cefnog a llai cefnog ac ardaloedd lle mae cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf | Derbyn. Bydd y dull hwn yn cael ei ystyried wrth asesu datganiadau o ddiddordeb yn ystod y gwaith ar beilotau. Pan fo bylchau amlwg, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i recriwtio awdurdodau ychwanegol er mwyn sicrhau bod y peilotau yn cael eu cynnal ar draws ystod o feysydd demograffig. |

| | |
|---|---|
| Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai'r broses o wneud cais i gofrestru'n ddienw fod mor syml a hyblyg â phosibl. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried peidio â gosod gofyniad i ddarparu tystiolaeth i gefnogi cais | Gwrthod. Ar hyn o bryd, mae'r broses o wneud cais i gofrestru'n ddienw yn caniatáu i etholwyr fod ar y gofrestr Seneddol a'r gofrestr llywodraeth leol yn ddienw drwy wneud un cais. Pe bai newidiadau yn cael eu gwneud o ran y gofrestr llywodraeth leol yn unig, byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i rywun sy'n dymuno aros yn ddienw ar y gofrestr Seneddol wneud cais arall, gydag amodau gwahanol. Rydym o'r farn nad yw'r lefel hon o gymhlethdod yn briodol i etholwyr a gallai arwain at unigolion yn ymddangos ar gofrestr etholiadol heb yn wybod iddynt. |
| Argymhelliad 10. Rydym yn argymell, unwaith y bydd person wedi'i gofrestru'n ddienw, na ddylai fod yn ofynnol iddo adnewyddu ei gofrestriad dienw bob blwyddyn. Yn hytrach, dylai'r cofrestriad dienw aros ar waith nes bod person yn mynd ati i ddewis newid y trefniant hwnnw | Gwrthod. Ar hyn o bryd, mae'r broses o wneud cais i gofrestru'n ddienw yn caniatáu i etholwyr fod ar y gofrestr Seneddol a'r gofrestr llywodraeth leol yn ddienw drwy wneud un cais. Pe byddem yn gwneud newidiadau o ran y gofrestr llywodraeth leol yn unig, byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i rywun sy'n dymuno aros yn ddienw ar y gofrestr Seneddol wneud cais arall, gydag amodau gwahanol. Yn yr achos hwn, byddai angen i berson sy'n gwneud cais amhenodol i gofrestru'n ddienw barhau i wneud cais bob blwyddyn i fod ar y gofrestr Seneddol yn ddienw. Rydym o'r farn nad yw'r cymhlethdod hwn yn dderbyniol i etholwyr. Yn yr un modd, gall bod ar gofrestr etholiadol yn ddienw achosi sgil-effeithiau i etholwr. Er enghraifft, ni fyddai'r etholwr yn ymddangos ar unrhyw wiriadau gwasanaethau ariannol ac felly ni fyddai'n elwa ar fod yn etholwr cofrestredig. |
| Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r Bil i gynnwys dyletswydd i dynnu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig cyn cynnal peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais. | Derbyn. Byddwn yn cyflwyno gwelliant i fewnosod gwaharddiad ar gychwyn y darpariaethau ym Mhennod 2 y Bil nes bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau i ddileu'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r gofrestr agored a nodir ar hyn o bryd mewn rheoliadau. Er mwyn atal Gweinidogion Cymru rhag adfywio'r gofrestr agored wedi hynny, byddwn hefyd yn diwygio adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. |
| Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed yn rhan o'r gwaith o gynllunio peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais. | Derbyn. Rydym wrthi'n ceisio datganiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol ynghylch peilotau cofrestru awtomatig. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, byddwn yn sefydlu gweithgor i ddatblygu peilotau unigol. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith deall ymddygiadau i hwyluso cyfathrebu effeithiol ag etholwyr. Byddwn yn manteisio ar gynrychiolwyr o'n rhwydwaith eang o sefydliadau sy'n gweithio gydag etholwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n cynrychioli etholwyr sy'n agored i niwed, er mwyn cyfrannu at gynlluniau cyfathrebu. |
| Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn cynnal peilotau'n | Derbyn. Rydym wrthi'n ceisio datganiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol ynghylch peilotau cofrestru awtomatig. Unwaith y bydd y |

| | |
|---|---|
| ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais, nodi sut y bydd y peilotau'n asesu a yw'r cyfnod o 45 diwrnod sydd gan unigolyn i ymateb i'r hysbysiad yn ddigonol | broses hon wedi'i chwblhau, byddwn yn sefydlu gweithgor i ddatblygu peilotau unigol. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cael gwahoddiad i fod yn rhan o'r gweithgor a bydd ffrwd waith sylweddol yn llunio'r meini prawf penodol ar gyfer gwerthuso'r peilotau. Bydd hyn yn cynnwys a yw'r amserlen 45 o ddiwrnodau ar gyfer ymateb i hysbysiad cofrestru yn ddigonol neu'n effeithiol ai peidio. |
| Argymhelliad 14. Rydym yn argymell, pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu gweithredu'r darpariaethau ar gofrestru etholiadol heb gais, y dylid cyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau. Dylai ymgyrch o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch, ar-lein ac ar ffurf copi caled ac mewn ystod eang o ieithoedd. | Derbyn. Cytunwyd ar hyn â phartneriaid allanol ac mae'r ymgyrch yn cael ei datblygu gan y gweithgor ar beilotau. |
| Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais gynnwys gwerthusiad o gadernid y ffynonellau data a ddefnyddir i adnabod pleidleiswyr cymwys. Os bydd y peilotau'n dangos y byddai ffynonellau data eraill yn fwy effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundebau rhannu data gyda Llywodraeth y DU, yn ôl yr angen. . | Derbyn yn rhannol.  Cytunwyd ar hyn â phartneriaid allanol ac mae'r gwaith yn cael ei ddatblygu gan y gweithgor ar beilotau. Fodd bynnag, mae'r Bil yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i awdurdodau Cymru (rhai lleol neu genedlaethol) gadw unrhyw ddata a ddefnyddir yn rhan o'r broses gofrestru awtomatig ac na all rheoliadau sy'n ymwneud â chofrestru awtomatig ei gwneud yn ofynnol i adrannau Llywodraeth y DU rannu data. |
| Argymhelliad 16. Rydym yn argymell y dylai peilotau'r dyfodol gael eu cynnal ar draws ystod o wahanol ardaloedd daearyddol ac ar draws ardaloedd trefol a gwledig.  Dylai peilotau ystyried hefyd allu gwahanol grwpiau oedran i gymryd rhan. | Derbyn. Bydd hon yn egwyddor sylfaenol o unrhyw raglenni peilotau yn y dyfodol. |
| Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i roi sicrwydd pellach mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai'r pŵer i orfodi peilotau etholiadol yn cael ei ddefnyddio ac y byddai | Derbyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio. |

| | |
|---|---|
| ganddynt adnoddau priodol, yn ariannol ac o ran capasiti saff | |
| Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai’r Bil gael ei wella i gynnwys gofyniad i’r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau yn nodi sut y dylai swyddogion canlyniadau ddarparu offer rhesymol at ddibenion galluogi pobl anabl i bleidleisio’n annibynnol neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, ac yn unol ag anghenion pleidleiswyr anabl. Dylai’r Bil nodi hefyd y byddai’n ofynnol i swyddogion canlyniadau roi sylw dyladwy i ganllawiau o’r fath | Gwrthod. Gwnaeth darpariaethau tebyg yn Neddf Etholiadau 2022 ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys y rheolau ar gyfer etholiadau seneddol.<br><br>Fodd bynnag, mae'r fframwaith rheolau etholiadol sydd ar waith yng Nghymru yn golygu y gellir diwygio'r darpariaethau mewn perthynas â darparu offer mewn gorsafoedd pleidleisio drwy is-ddeddfwriaeth a hynny drwy newid y rheolau etholiadol priodol a nodir yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 a Rheolau Etholiadau Lleol 2021. Er mwyn sicrhau hygyrchedd y gyfraith, dylai'r gofyniad o ran darparu canllawiau fod yn rhan o'r darpariaethau hyn.<br><br>Ar gyfer Etholiadau'r Senedd, rydym wedi ymrwymo i gydgrynhoi ac ailddatgan y gyfraith yn rhan o fframwaith hygyrch a dwyieithog. Bydd hyn yn digwydd am y tro cyntaf cyn etholiad 2026. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar Orchymyn drafft dwyieithog sydd wedi'i gydgrynhoi felly bydd cyfle i randdeiliaid ystyried newidiadau arfaethedig yn fanwl. |
| Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai swyddogion canlyniadau a rhanddeiliaid perthnasol fod yn rhan o’r gwaith o baratoi canllawiau yn ymwneud â darparu offer i alluogi pobl anabl i bleidleisio’n annibynnol neu ei gwneud hi’n haws iddynt wneud hynny. Dylai’r canllawiau nodi y dylai swyddogion canlyniadau wneud pob ymdrech i ddeall anghenion pobl anabl ac awgrymiadau ar sut i gyflawni hyn | Nodwyd. Byddai'r argymhelliad hwn yn un i'r Comisiwn Etholiadol ei ystyried ac ymateb iddo. |
| Argymhelliad 20. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pwysigrwydd cynnwys y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wrth osod ei chwestiynau craidd ar gyfer yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol | Derbyn mewn egwyddor. Nid yw cwmpas yr hyn y gellir ei gynnwys yn yr arolwg yn cael ei newid drwy'r Bil. Mae newidiadau i'r arolwg yn canolbwyntio ar weithdrefn ar gyfer cytuno ar y cwestiynau a hwyluso dull dwy ran, sy'n arwain at gyfres o gwestiynau craidd sy'n berthnasol i bob cyngor a chwestiynau sydd wedi'u targedu'n fwy y gellir eu pennu'n lleol, yn dibynnu ar fentrau neu waith sy'n cael ei gynnal yn lleol. |
| Argymhelliad 21. Rydym yn argymell y dylai’r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol | Derbyn. Byddwn yn ystyried sut y gallai'r arolwg ymgeiswyr gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu ymgeiswyr. |

| | |
|---|---|
| gynnwys cwestiwn yn ymwneud â chyfrifoldebau gofalu ymgeiswyr yn y cwestiynau craidd | |
| Argymhelliad 22. Rydym yn argymell y dylai'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol gynnwys cwestiynau craidd mewn perthynas â phrofiad ymgeiswyr o gamdriniaeth ac aflonyddu | Derbyn. Byddwn yn ystyried sut y gallai'r arolwg ymgeiswyr gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â phrofiad ymgeiswyr o fwlio ac aflonyddu a sut y gallai dadansoddi data a gesglir lywio dulliau gweithredu yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'r ymddygiad annerbyniol hwn. |
| Argymhelliad 23. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei ddefnyddio i ddylunio'r platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Dylai hyn gynnwys cyfraniad rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn fformatau hygyrch | Derbyn. Byddwn yn ymwneud â rhanddeiliaid ac yn cydweithio â nhw drwy gydol y broses ddatblygu er mwyn ystyried gofynion hygyrchedd a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb sydd angen cael gafael arni. Byddwn yn nodi'r gofynion o ran hygyrchedd ac iaith yn ogystal ag egwyddorion o ran cynnwys a fydd wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid yn y rheoliadau a'r llythyr cylch gwaith. |
| Argymhelliad 24. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i gyflawni gwaith pellach i ystyried atebolrwydd cyfreithiol y ddau ymgeisydd a gwesteiwr y platfform mewn perthynas â datganiadau a gyhoeddir ar y platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Rhaid egluro hyn cyn lansiad y platfform | Derbyn mewn egwyddor. Bydd canllawiau a/neu reoliadau yn nodi'n glir pa wybodaeth y gellir ei chynnwys a pha wybodaeth na ellir ei chynnwys mewn datganiadau fel bod ymgeiswyr, a'r rhai sy'n gwirio'r datganiadau, yn ymwybodol o'r fath reolau cyn eu llwytho. Byddant hefyd yn nodi pwy sy'n gyfrifol am y fath wybodaeth a'r canlyniadau tebygol os caiff y fath reolau a chyfreithiau eu torri. |
| Argymhelliad 25. Rydym yn argymell y dylid cynnwys hyfforddiant penodol i gynorthwyo grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddelio â chamdriniaeth ac aflonyddu yn y gwasanaethau a restrir yn adran 28(5). | Gwrthod. Mae hyfforddiant eisoes wedi'i gynnwys yn adran 28(5) ac nid oes angen diwygio'r Bil i bennu math penodol o hyfforddiant. Byddem yn fodlon cyfeirio at hyfforddiant ar gamdriniaeth ac aflonyddu fel enghraifft yn y deunydd sy'n cyd-fynd â'r Bil. |
| Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o gynllun cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl a sicrhau bod y cynllun yn dechrau mewn digon o | Derbyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynllun presennol mewn da bryd er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr cyn etholiadau yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| amser cyn etholiad nesaf y Senedd | |
| Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddatblygu a pheilota cronfa cymorth ariannol i gefnogi gofalwyr di-dâl i sefyll mewn etholiad. Rydym yn cydnabod y byddai angen i hyn ystyried sut mae diffinio gofalwyr di-dâl a sut y gallai cynllun dargedu’r rhai sydd angen cymorth ariannol fwyaf. | Derbyn mewn egwyddor. Mae'r Bil yn caniatáu i'r fath ddulliau gael eu rhoi ar waith, ond bydd angen i unrhyw gynlluniau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chael eu targedu'n briodol. Mae angen dull hyblyg i sicrhau bod y rhesymeg dros unrhyw gynllun yn gadarn a bod y mesurau a roddir ar waith yn mynd i'r afael â'r rhwystrau mewn modd nad yw'n creu mantais i unrhyw grŵp penodol o unigolion dros eraill. |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymgynghoriad ar newidiadau i'r broses Gweithio i Wella a diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011** |
| **DYDDIAD** | **12 Chwefror 2024** |
| **GAN** | **Eluned Morgan, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Rwy'n cyhoeddi cychwyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar 12 Chwefror, er mwyn:

- gwrando ar ddinasyddion Cymru a rhanddeiliaid eraill am eu profiad wrth godi cwynion am ofal GIG a
- gofyn am eu hadborth am rai newidiadau yr ydym yn eu cynnig i'r broses bresennol.

Sefydlwyd y broses Gweithio i Wella o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. Mae'n rhoi un broses i bobl godi pryder neu gwyn am wasanaethau GIG Cymru. Mae hefyd yn gosod y broses am ystyried a chynnig iawn pan achosir niwed mewn cysylltiad â'r gofal hwnnw.

Buom yn gwrando yn ofalus dros y blynyddoedd diwethaf i brofiadau'r rhai â phrofiad o ofal yn y GIG; y rhai sy'n gyfrifol am ei ddarparu; y rhai sy wedi codi pryderon am eu gofal a sut y'u triniwyd, a'r rhai sy'n darparu cyngor cyfreithiol a sy'n datrys yr achosion hyn.

Mae eisiau rhywfaint o adolygu a moderneiddio ar y rheoliadau, a luniwyd dros ddegawd yn ôl, er mwyn eu diweddaru yn unol ag arfer cyfredol. Mae'r canllawiau manwl, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2011 i helpu'r system ymwreiddio, yn hirfaith a byddent hefyd yn elwa o gael eu hailwampio, eu symleiddio a'u gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Daw'r ymgynghoriad â nifer o wersi allweddol at ei gilydd, sy'n deillio o wrando ar y cyhoedd a darparwyr gofal. Mae'n gosod newidiadau polisi arfaethedig a'r nod o:

- osod pobl wrth galon y broses
- darparu ffocws gwell ar gyfathrebu tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf
- gwella'r broses Gweithio i Wella i fod yn fwy cynhwysol
- cynnwys prosesau uwchgyfeirio am bryderon brys am gam-drin bwriadol neu niwed oherwydd gofal, neu ar ôl i rywun farw
- ailwampio'r trefniadau i ddarparu cyngor cyfreithiol ac adroddiadau arbenigwyr meddygol am ddim

Mae’r newidiadau hyn yn adeiladu ar y Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd a weithredwyd ym 2023 a Fframwaith Codi Llais Heb Ofn, y mae pob un yn cefnogi ein hymrwymiad i ddiwylliant o fod yn agored, bod yn dryloyw, a chael mwy o atebolrwydd yn GIG Cymru. Mae’r newidiadau arfaethedig yn ffocysu ar sicrhau bod y rhai sy’n gyfrifol am ddarparu gofal iechyd yn gwrando yn weithgar ac yn dysgu oddi wrth gleifion a’u teuluoedd er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gofal.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael o 12 Chwefror tan 6 Mai 2024.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 4PH

SeneddDCC@senedd.cymru

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw chi a'r pwyllgor at lansiad yr ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r broses 'Gweithio i Wella' a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei lansio ar 12 Chwefror 2024 ac yn cau ar 6 Mai 2024.

https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-broses-gweithio-i-wella

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 7.12

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adroddiad Seneddol Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) mis Mehefin i fis Rhagfyr 2023** |
| **DYDDIAD** | **12 Chwefror 2024** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol Cymru a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Rwyf yn ysgrifennu atoch i dynnu sylw'r Senedd at adroddiad statudol cyntaf Llywodraeth y DU i Senedd y DU o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2024: Retained EU Law Parliamentary Report June 2023 – December 2023 (Saesneg yn Unig).

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r newidiadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud gan ddefnyddio pwerau Deddf REUL rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2023. Mae Llywodraeth y DU yn datgan ei bod ar y trywydd iawn o ran diwygio neu ddirymu mwy na hanner stoc cyfraith yr UE a ddargedwir erbyn mis Mehefin 2026. Mae'n defnyddio dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am faint o ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE, a'r cynnydd y mae'r llywodraeth yn ei wneud. Mae'r dangosfwrdd bellach yn nodi nad yw ond yn cwmpasu deddfwriaeth y DU sydd chadw yn ôl, ac sydd â chymhwysedd cymysg neu sy'n dod o dan gymhwysedd datganoledig; nid yw'n cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a wneir gan y sefydliadau datganoledig.

Mae'r adroddiad yn nodi bod gan y dangosfwrdd gyfanswm o 6,757 o offerynnau o gyfraith yr UE a ddargedwir yn rhychwantu tua 400 o feysydd polisi. Ers y diweddariad blaenorol i'r dangosfwrdd ar 22 Ionawr 2024, mae mwy na 1,000 o offerynnau cyfraith yr UE a ddargedwir naill ai wedi'u dirymu neu eu diwygio, sy'n golygu bod mwy na 2,000 o offerynnau eisoes wedi'u dirymu neu eu diwygio i gyd.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu parhau i ddefnyddio pwerau Deddf REUL yn 2024 ac mae'n cynnig diwygio hyd at 197 darn o gyfraith a gymhathwyd yn 2024-25 a 785 yn 2025-26.

Mae'r adroddiad yn nodi y bydd y diwygiadau arfaethedig yn achos cyfraith a gymhathwyd yn cyflawni amcanion rheoleiddio doethach Llywodraeth y DU i reoleiddio gael ei ddefnyddio yn unig lle bo angen, iddo gael ei roi ar waith yn dda, ei ddefnyddio'n gymesur, ac i gael ei ddiogelu at y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd pwerau Deddf REUL i ddirymu a diwygio yn cael eu defnyddio i fwrw ymlaen â datblygu'r rhaglen hon.

Gwrthododd y Senedd roi ei chydsyniad i Fil REUL ac nid ydym yn argyhoeddedig o angenrheidrwydd, dymunoldeb a doethineb cychwyn ar newid sylweddol i'r corff o'r hyn sydd bellach yn gyfraith a gymathwyd ar hyn o bryd ac yn fwy cyffredinol. Rydym o'r farn bod yn rhaid ystyried newid rheoleiddiol mewn ffordd bwyllog a gwrthrychol.

Byddwn yn defnyddio pwerau Deddf REUL mewn modd cymesur a doeth lle y mae manteision i Gymru o wneud hynny. Ni fyddwn yn brysio i newid y gyfraith dim ond am ein bod yn gallu. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU pan fydd gwneud hynny'n dda i Gymru.

Rydym yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod cynnwys gofyniad statudol yn Neddf REUL ar gyfer cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan bwerau yn Neddf REUL.

Er gwaethaf hyn, rydym yn croesawu ymrwymiadau anstatudol y mae Gweinidogion y DU wedi'u gwneud i geisio cytundeb gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio pwerau Deddf REUL lle mae ganddynt effaith mewn meysydd datganoledig. Rydym yn gobeithio y bydd ymrwymiadau i beidio â chymryd pwerau pellach neu i wrthwneud cymwyseddau datganoledig yn cael eu parchu drwy gydol yr amser y mae'r pwerau yn y Ddeddf ar gael i Lywodraeth y DU.

Rydym yn croesawu'r adroddiad sy'n cydnabod mai mater i'r deddfwrfeydd datganoledig yw penderfynu a ddylai cyfraith a pholisi domestig fod yn wahanol i gyfraith a pholisi'r UE, sut y dylai hynny ddigwydd ac i ba raddau. Mae'r egwyddor hon yr un mor gymwys i'r ystod gyfan o newidiadau y gellir defnyddio pwerau Deddf REUL i'w cyflawni.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar faterion sy'n gwella bywydau pobl yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael inni i sicrhau bod hawliau a safonau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn cael eu diogelu. Mae'n hanfodol bod rheoliadau sy'n gymwys yng Nghymru, a wneir gan Lywodraeth y DU, yn parchu blaenoriaethau pobl Cymru, ac nad ydynt yn cael eu gwneud mewn meysydd datganoledig ond pan fo cydsyniad Gweinidogion Cymru wedi'i roi.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Eitem 7.13

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for North Wales
-
Aelod Senedd dros Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1SN

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

**Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am yr amser y mae wedi'i dreulio'n ystyried manylion y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

Ysgrifennaf mewn ymateb i gais Adam Price AS i mi ddarparu enghreifftiau o ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n gorfodi cynnwys rhai elfennau mewn canllawiau. Rwyf wedi cynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn ddetholiad o enghreifftiau diweddar sy'n ymdrin â'r pwynt hwn, o Ddeddfau Senedd Cymru a Deddfau Senedd y DU.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Sam Rowlands AS
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**

**Atodiad**

| Deddf | Adran | Nodyn esboniadol |
|---|---|---|
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 | 196(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff a restrir yn is-adran (2)—<br>(a) ar sut y gall y cyrff gyfrannu tuag at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i gynnal y cofnodion, a<br>(b) ar y defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau'r cyrff. | Mae adran 196 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio a chynnal a chadw'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ac ar y defnydd o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth gyflawni eu swyddogaethau. |
| Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 | 2(3) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch—<br>(a) y cynhyrchion plastig untro sydd wedi eu gwahardd o dan y Ddeddf hon;<br>(b) cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen. | Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch y cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd o dan y Ddeddf, a sut y dylid cymhwyso unrhyw eithriadau sy'n cael eu rhestru o dan golofn 2 yn y Tabl. |
| Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | 9(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch cyfansoddiad yr is-grŵp caffael cyhoeddus (gan gynnwys at ddiben sicrhau aelodaeth sydd â chynrychiolaeth briodol),<br>a rhaid i'r CPG roi sylw i'r canllawiau hynny. | Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPG gymryd pob cam rhesymol i sefydlu is-grŵp penodol sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus o fewn chwe mis i adran 9(1) ddod i rym.<br><br>Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp caffael cyhoeddus, llunio canllawiau y mae'n rhaid i'r CPG roi sylw iddynt wrth benodi aelodau, gan gynnwys canllawiau at ddiben sicrhau bod gan yr aelodaeth gynrychiolaeth briodol a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod cyfarfodydd.<br><br>Mae'r adran hefyd yn nodi materion penodol y mae'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhaid i'r gweithdrefnau sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ymdrin â nhw; mae'r rhain yr un fath â'r rhai yr ymdrinnir â nhw yn y gweithdrefnau a bennir ac a gyhoeddir mewn perthynas â'r CPG llawn. |
| Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 | Adran 134(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu<br>pa un ai i gymeradwyo corff neu unigolyn at ddibenion yr adran hon. | Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth gymeradwyo corff neu unigolyn y caniateir i'r wybodaeth gael ei rhannu ag ef. |
| Deddf Diogelu Data 2018 | 12(2) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol nodi drwy reoliadau…yr hyn y mae'n rhaid i'r canllawiau ei gynnwys. | Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r canllawiau ei gynnwys. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 14

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Procedure Committee**

**Huw Irranca-Davies MS**

**Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee,**
**Welsh Parliament**

By email only

17 January 2024

Dear Huw,

Thank you for your letter of 13 December in relation to House of Commons procedures in respect of the laying of Welsh language statutory instruments (SI).

The advice I have received from officials in the House of Commons matches that contained in my predecessor's letter of October 2018 which you quote.

There is no procedural or other bar to a statutory instrument that contains text in Welsh, including bilingual instruments, being laid before the House of Commons if the relevant Act requires it to be. As you know, this already regularly happens.

The determining factor of how SIs are drafted, including in what language(s), is the relevant enabling legislation and wider law on statutory instruments. From the House of Commons' point of view the content and form of SIs is in essence a legal rather than a procedural question.

It might also be helpful to note that if Ministers wanted to, they could lay a command paper alongside a SI that was in English only containing a translation into Welsh (or any other language). The practice of the House is not to accept for laying standalone documents in languages other than English. However, it does accept documents in multiple languages, if they include the full text in English, or separate documents containing a translation of another laid alongside it.

You indicated that you were writing in similar terms to the Chair of the House of Lords' Committee on Procedure and Privileges, who I understand has received similar advice in relation to House of Lords procedure from his officials.

I also understand that the Chair of the Joint Committee on Statutory Instruments is writing to you separately on the question of how her committee scrutinises SIs that contain Welsh. I am copying my letter to her, and Lord Gardiner of Kimble.

House of Commons
Palace of Westminster
Westminster
SW1A 0AA

**020 7219 3351**
**proccom@parliament.uk**
**@CommonsProcCom**
**https://committees.parliament.uk/committee/126/procedure-committee/**

**Procedure Committee**

I expect my Committee will decide to publish our letters in due course.

Best regards,

Karen Bradley

**Rt Hon Dame Karen Bradley MP**
Chair of the Procedure Committee

House of Commons
Palace of Westminster
Westminster
SW1A 0AA

**020 7219 3351**
**proccom@parliament.uk**
**@CommonsProcCom**
**https://committees.parliament.uk/committee/126/procedure-committee/**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rt Hon Karen Bradley MP
Chair, Procedure Committee
House of Commons

13 December 2023

Dear Karen

House of Commons procedures in respect of the laying of Welsh language statutory instruments

I am writing regarding a long-standing issue which my Committee has recently decided to consider in detail, and would be grateful if you could help inform our consideration.

You will be aware that some types of statutory instruments – including joint statutory instruments and Orders in Council – are required to be laid for scrutiny in more than one legislature.

My Committee, and its predecessors, have been told by the Welsh Government that a Welsh and English language version of such a statutory instrument cannot be laid in both the Senedd and the UK Parliament. The Welsh Government's reasoning is that no routine parliamentary processes exist by which to lay bilingual instruments before the UK Parliament, and that the UK Parliament will not scrutinise general statutory instruments in languages other than English.

However, in October 2018 the then Chair of the Procedure Committee told the then Chair of the Constitutional and Legislative Affairs ("CLA") Committee as follows:

> *"House of Commons officials have considered the matter in detail and advise me that there is no bar in the standing orders, resolutions or practice of the House to prohibit the laying of general statutory instruments before the House in a bilingual form. Whether there is a statutory requirement to lay material before the House in both languages, or where the Welsh is required in part of the material, it seems odd to assert, as the Welsh Government seems to, that the House of Commons will not scrutinise such material: the principal purpose of requiring such material to be*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

*laid is surely to allow it to be examined by parliamentarians as well as to make it available to the general public."*

The Chair of the CLA Committee drew this statement to the attention of the then First Minister, Carwyn Jones AM. The First Minister made the following observations in response:

*"There is an important distinction to make between two types of legislation:*

*1. Legislation which consists of two distinct texts in English and Welsh, where both texts have equal status in law.*

*2. Legislation that consists of a single English text, but within which provisions contain amendments to texts of legislation in the first category above; i.e. to an instrument, Act or Measure which has both English and Welsh versions, and thus contains some Welsh language text.*

*Both categories have been described by some as "bilingual" however, the Welsh Government considers only the first category to be bilingual. I believe the National Assembly shares this view [...]*

*However, we have always understood it was not possible to lay a statutory instrument before Parliament when the primary language was not English – i.e. it would not be possible to lay the Welsh version of a bilingual statutory instrument. Thus, if a joint or composite statutory instrument was drafted bilingually, the Welsh text could not be laid and would not then be scrutinised. [...]*

*Mr Walker's letter refers to the possibility of laying bilingual legislation in the Houses of Commons, however it is not clear what definition of "bilingual" is being applied or the status that would be accorded to the document."*

It is of profound importance to my Committee that legislation which includes provision in devolved areas, and especially legislation made by the Welsh Ministers for scrutiny in the Senedd, is accessible to both parliamentarians and future users of the legislation in both Welsh and English.

Therefore, in light of the above comments, I would be grateful if you could share your understanding of whether any procedural barriers exist which prevent the laying of statutory instruments before the House which take the form of two distinct texts in English and Welsh, where both texts have equal status in law. If such barriers do exist, I would also be grateful to receive your observations on how such barriers may be overcome.

I have written in similar terms to the Chair of the House of Lords Procedure and Privileges Committee. I have also written on this matter to the Chair of the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee and the Chair of the Joint Committee on Statutory Instruments.

Yours sincerely,

Huw Irranca-Davies
Chair

HOUSE OF LORDS
Secondary Legislation Scrutiny Committee

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020-7219 8821
hlseclegscrutiny@parliament.uk
www.parliament.uk/lords

17 January 2024

Huw Irranca-Davies MS
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament

*by email*

**Scrutiny of statutory instruments which contain Welsh text**

Thank you for your letter of 13 December 2023 enquiring how the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee approaches the scrutiny of secondary legislation containing Welsh text that has been laid before the UK Parliament.

As with the example you cite in your letter, the Government includes such material on the basis that it is equivalent to the English text and we accept it as such. We understand it is for each Government department to provide the translation of any material: there is no central Government resource, although use of an accredited translator is recommended.

Our focus is solely on the policy content of the instrument and does not extend to legal or drafting issues such as the accuracy of the Welsh translation. Questions about the drafting of the instrument itself are the purview of the Joint Committee on Statutory Instruments, who, I understand, will send their own response. Our remit is to draw to the attention of the House of Lords any matters of policy interest in the secondary legislation put before it, and their operating language is English.

That said, may I take this opportunity to reassure you that, when considering the policy objectives and proposed implementation of any secondary legislation, we are vigilant about asking the sponsoring department whether the Devolved Governments have been consulted and what views they expressed. Our reports highlight any issues we find which might suggest inconsistencies between the jurisdictions, for example in our recent report on *the Draft Wine (Revocation and Consequential Provision) Regulations 2023* (2nd Report of this session).

I am copying this letter to the Procedure Committees and the Joint Committee on Statutory Instruments.

**Rt Hon. the Lord Hunt of Wirral, MBE**
Chair of the Secondary Legislation Scrutiny Committee

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

The Rt Hon. the Lord Hunt of Wirral MBE
Chair, Secondary Legislation Scrutiny Committee
House of Lords

13 December 2023

Dear Lord Hunt

Scrutiny of statutory instruments which contain text in languages other than English

I am writing regarding a long-standing issue which my Committee has recently decided to consider in detail, and would be grateful if you could help inform our consideration.

You will be aware that some types of statutory instruments – including joint statutory instruments and Orders in Council – are required to be laid for scrutiny in more than one legislature.

My Committee, and its predecessors, have been told by the Welsh Government that a Welsh and English language version of such a statutory instrument cannot be laid in both the Senedd and the UK Parliament. The Welsh Government's reasoning is that no routine parliamentary processes exist by which to lay bilingual instruments before the UK Parliament, and that the UK Parliament will not scrutinise general statutory instruments in languages other than English.

I have written to the chairs of both the Procedure and Privileges Committee and the House of Commons Procedure Committee to seek their assessment of whether the UK Parliament's procedures prevent such instruments to be laid.

However, it would also be helpful for my Committee to understand your Committee's approach to scrutiny of statutory instruments which contain text drafted in languages other than English. A recent example of such an instrument was the draft version of the Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023; consideration of which was included in your 51st Report of Session 2022-23. As you



Senedd Cymru
Welsh Parliament

will be aware the instrument, which has now been made, includes substantial amendments to the Wesh language text of regulations made in both Welsh and English by the Welsh Ministers.

I would be grateful if you could summarise your Committee's approach to the scrutiny of legislation containing Welsh language text; including whether, assisted by its staff, it assesses and validates the accuracy of Welsh language text contained within statutory instruments, and the degree to which corresponding English and Welsh texts match. Please could you also confirm whether your Committee is provided with any other information, such as specific assurances from the relevant Government department on the accuracy of the drafting of Welsh language text contained within an instrument.

I have written in similar terms to the Chair of the Joint Committee on Statutory Instruments.

Yours sincerely,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Chair

HOUSE OF LORDS

Senior Deputy Speaker
Chairman of the Procedure and Privileges Committee

House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 8829
Email:
hlseniordeputyspeaker@parliament.uk
www.parliament.uk/lords

Huw Irranca-Davies
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

17 January 2024

Dear Huw,

Thank you for your letter of 13 December in relation to House of Lords procedures in respect of the laying of Welsh language statutory instruments.

I can confirm that no procedural barriers exist in the House of Lords that would prevent the laying of a statutory instrument before the House in the form of two distinct texts in English and Welsh, where both texts have equal status in law. Your letter indicated that you were writing in similar terms to the Chair of the House of Commons Procedure Committee and I understand that she has received similar advice from her officials.

I note that you also wrote on this matter to the Chair of the Secondary Legislation Scrutiny Committee and the Chair of the Joint Committee on Statutory Instruments. I am therefore copying my letter to the Chairs of those Committees, as well as to the Chair of the House of Commons Procedure Committee.

Yours sincerely,

John

Lord Gardiner of Kimble

Chair, House of Lords Procedure and Privileges Committee

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

The Lord Gardiner of Kimble
Chair, Procedure and Privileges Committee
House of Lords

13 December 2023

Dear Lord Gardiner

House of Lords procedures in respect of the laying of Welsh language statutory instruments

I am writing regarding a long-standing issue which my Committee has recently decided to consider in detail, and would be grateful if you could help inform our consideration.

You will be aware that some types of statutory instruments – including joint statutory instruments and Orders in Council – are required to be laid for scrutiny in more than one legislature.

My Committee, and its predecessors, have been told by the Welsh Government that a Welsh and English language version of such a statutory instrument cannot be laid in both the Senedd and the UK Parliament. The Welsh Government's reasoning is that no routine parliamentary processes exist by which to lay bilingual instruments before the UK Parliament, and that the UK Parliament will not scrutinise general statutory instruments in languages other than English.

However, in October 2018 the then Chair of the House of Commons Procedure Committee told the then Chair of the Constitutional and Legislative Affairs ("CLA") Committee as follows:

> *"House of Commons officials have considered the matter in detail and advise me that there is no bar in the standing orders, resolutions or practice of the House to prohibit the laying of general statutory instruments before the House in a bilingual form. Whether there is a statutory requirement to lay material before the House in both languages, or where the Welsh is required in part of the material, it seems odd to assert, as the Welsh Government seems to, that the House of Commons will*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

*not scrutinise such material: the principal purpose of requiring such material to be laid is surely to allow it to be examined by parliamentarians as well as to make it available to the general public."*

The Chair of the CLA Committee drew this statement to the attention of the then First Minister, Carwyn Jones AM. The First Minister made the following observations in response:

*"There is an important distinction to make between two types of legislation:*

*1. Legislation which consists of two distinct texts in English and Welsh, where both texts have equal status in law.*

*2. Legislation that consists of a single English text, but within which provisions contain amendments to texts of legislation in the first category above; i.e. to an instrument, Act or Measure which has both English and Welsh versions, and thus contains some Welsh language text.*

*Both categories have been described by some as "bilingual" however, the Welsh Government considers only the first category to be bilingual. I believe the National Assembly shares this view […]*

*However, we have always understood it was not possible to lay a statutory instrument before Parliament when the primary language was not English – i.e. it would not be possible to lay the Welsh version of a bilingual statutory instrument. Thus, if a joint or composite statutory instrument was drafted bilingually, the Welsh text could not be laid and would not then be scrutinised. […]*

*Mr Walker's letter refers to the possibility of laying bilingual legislation in the Houses of Commons, however it is not clear what definition of "bilingual" is being applied or the status that would be accorded to the document."*

It is of profound importance to my Committee that legislation which includes provision in devolved areas, and especially legislation made by the Welsh Ministers for scrutiny in the Senedd, is accessible to both parliamentarians and future users of the legislation in both Welsh and English.

Therefore, in light of the above comments, I would be grateful if you could share your understanding of whether any procedural barriers exist which prevent the laying of statutory instruments before the House which take the form of two distinct texts in English and Welsh, where both texts have equal status in law. If such barriers do exist, I would also be grateful to receive your observations on how such barriers may be overcome.

I have written in similar terms to the Chair of the House of Commons Procedure Committee. I have also written on this matter to the Chair of the Secondary Legislation Scrutiny Committee and the Chair of the Joint Committee on Statutory Instruments.

Yours sincerely,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Chair

# Joint Committee on Statutory Instruments

Select Committee Team · House of Commons · London · SW1A 0AA

Tel 020 7219 5006   Email JCSI@parliament.uk   Website www.parliament.uk


From Jessica Morden MP

Huw Irranca-Davies,
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee,
Welsh Parliament
By email only

17 January 2024

Thank you for your letter of 13 December 2023 on the scrutiny of the Welsh language in UK statutory instruments.

The Committee has in the past identified discrepancies between English and Welsh texts in terms of whether the same units of text exist in both versions. See as examples the Committee's Tenth Report of Session 2022-23 (on S.I. 2022/634, *the Health and Care Act 2022 (Consequential and Related Amendments and Transitional Provisions) Regulations 2022)* and the Committee's Twenty Sixth Report of Session 2022-23 (on S.I. 2022/1402, *the Parliamentary Elections (Welsh Forms) (Amendment) Order 2022)*.

The Committee has in the past received assurances from the Government specifically on the quality of Welsh translation in statutory instruments, such as in the Committee's Seventeenth Report of Session 2015-16 (see appendix 5, in relation to the Draft National Assembly for Wales (Representation of the People) (Amendment) Order 2016) and is able to request similar assurances in future if similar problems arise again. In response to your letter, the Committee will write to the Government to update that assurance.

I am copying this letter to the House of Commons Procedure Committee and the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee.

Yours sincerely,

Jessica Morden

Chair of the Joint Committee on Statutory Instruments

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jessica Morden MP
Chair, Joint Committee on Statutory Instruments
UK Parliament

13 December 2023

Dear Jessica

Scrutiny of statutory instruments which contain text in languages other than English

I am writing regarding a long-standing issue which my Committee has recently decided to consider in detail, and would be grateful if you could help inform our consideration.

You will be aware that some types of statutory instruments – including joint statutory instruments and Orders in Council – are required to be laid for scrutiny in more than one legislature.

My Committee, and its predecessors, have been told by the Welsh Government that a Welsh and English language version of such a statutory instrument cannot be laid in both the Senedd and the UK Parliament. The Welsh Government's reasoning is that no routine parliamentary processes exist by which to lay bilingual instruments before the UK Parliament, and that the UK Parliament will not scrutinise general statutory instruments in languages other than English.

I have written to the chairs of both the Procedure and Privileges Committee and the House of Commons Procedure Committee to seek their assessment of whether the UK Parliament's procedures prevent such instruments to be laid.

However, it would also be helpful for my Committee to understand your Committee's approach to scrutiny of statutory instruments which contain text drafted in languages other than English. Therefore, I would be grateful if you could summarise your Committee's approach to the scrutiny of legislation containing Welsh language text; including whether, assisted by its staff, it assesses and validates the accuracy of Welsh language text contained within statutory instruments, and the degree

to which corresponding English and Welsh texts match. Please could you also confirm whether your Committee is provided with any other information, such as specific assurances from the relevant Government department on the accuracy of the drafting of Welsh language text contained within an instrument.

I have written in similar terms to the Chair of the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee.

Yours sincerely,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Chair

# Eitem 16

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon